# CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

# YN CHUBUT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015




Gareth Kiff LL.B B.Add
Monitor Academaidd & Cadeirydd

**CYNNWYS**


1) **Gorolwg** **Tud.2-3**

2) **Targedau 2014** **Tud.3**

3) **Llwyddiannau Allweddol** **Tud.4**

4) **Traweffaith Y Cynllun/Ystadegau a Ffigurau** **Tud.5-9**

5) **Datblygiadau Addysg Gynradd** **Tud.10-14**

6) **Menter Patagonia** **Tud.15-39**

7) **Adroddiad y Cydlynydd Dysgu** **Tud.40-44**

8) **Astudiaethau Achos** **Tud.45-56**

9) **Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion 2014 ac Argymhellion 2015** **Tud.57-59**

# GOROLWG

**Er 1997, mae Prosiect yr Iaith Gymraeg (WLP) wedi bod yn hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, Yr Ariannin. Bob blwyddyn mae tri Swyddog Datblygu Iaith o Gymru yn treulio cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr yn dysgu ym Mhatagonia. Maent yn datblygu'r iaith mewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg drwy ddysgu ffurfiol a gweithgareddau cymdeithasol anffurfiol.**

**Mae Cydlynydd Dysgu parhaol o Gymru hefyd wedi'i leoli ym Mhatagonia sy'n gyfrifol am ansawdd y dysgu.**

**Agwedd arall ar y prosiect yw rhwydwaith o diwtoriaid o Batagonia sy'n siarad Cymraeg sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth. Wrth ymweld â Chymru, mynychu cyrsiau Cymraeg a chymryd rhan mewn ymweliadau arsylwi ysgolion, rydym yn helpu i gynnal safonau addysgu a'r methodolegau diweddaraf sydd ar waith ym Mhatagonia.**

**Rheolir y Cynllun gan Bwyllgor yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Cymru Ariannin, Menter Patagonia a Chanolfan Cymraeg i Oedolion, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.**

**Mae'r prosiect sy'n cynnwys ymweliadau cyfatebol, addysgu a hyfforddiant wedi ennill cydnabyddiaeth a llwyddiant yn rhyngwladol.**

## Dull a maes llafur

**Rydym yn gweithio mewn tri dalgylch: yr Andes, Gaiman a Threlew. Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau o lefel dechreuwyr i gyrsiau gloywi i siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn cynnal y cyrsiau hyn yn y sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac oedolion.**

**Mae Swyddogion Datblygu'r Iaith Gymraeg yn addysgu amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Wlpan, Pellach, Uwch a Meistroli. Defnyddir cyrsiau a luniwyd gan y Ganolfan Gymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd, wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destunau Sbaeneg a Chymraeg.**

## Cyllid

**Mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cymru-Ariannin a British Council Cymru yn ariannu'r prosiect hwn, sy'n rhan o'r Rhaglen Addysg Rhyngwladol. Mae llywodraeth Chubut a chyrff eraill yn darparu cyllid hefyd i gefnogi'r gwaith o ddysgu Cymraeg a'r gymuned Gymraeg ehangach.**

## Hanes

**Mae 2015 yn nodi 150 o flynyddoedd ers i'r ymsefydlwyr cyntaf o Gymru gyrraedd Patagonia.**

**Mae Cymru a Phatagonia wedi'u huno gan draddodiad, hanes ac iaith. Dechreuodd yr ymsefydlwyr parhaol gyrraedd Chubut a'r ardaloedd cyfagos ar 27 Gorffennaf, 1865. Daeth 153 o ymsefydlwyr o Gymru drosodd ar y Mimosa.**

**Bellach, ar ddechrau'r 21ain ganrif, mae tua 50,000 o boblogaeth Patagonia o dras Gymreig.**

## TARGEDAU 2015

1) **Anfon 3 Swyddog Datblygu i addysgu a threfnu gweithgareddau cymdeithasoli iaith Menter Patagonia. Yn y Dyffryn anelwyd at recriwtio un tiwtor fyddai'n arbenigo mewn datblygu addysg feithrin a chynradd yn yr Andes.**

2) **Cyflogi un Cydlynydd Dysgu yn y Wladfa.**

3) **1200 o ddysgwyr mewn gwersi Cymraeg.**

4) **Sefydlu partneriaeth trwy Connecting Classrooms**

***Cyflawnwyd pob un o'r targedau uchod***

## LWYDDIANNAU ALLWEDDOL

1) **Anfonwyd 3 swyddog i Batagonia. Un i'r Andes 50% dysgu a 50% gwaith Menter Patagonia. 2 berson i'r Dyffryn, y ddau yn dysgu am 75% o'u hamser a threulio 25% yr un ar waith Menter Patagonia.**

2) **Cyfanswm o 1220 o bobl ar gyrsiau Cymraeg. (1174 oedd y cyfanswm yn 2014) sef y nifer uchaf yn hanes y Cynllun. Mae hyn yn gynnydd o 3.9% eleni a 25% ers dechrau'r cylch 3 blynedd ( 2012-2015).(Roedd 977 o bobl yn 2012).**

3) **Mae dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion wedi denu y ffigur uchaf yn hanes y Cynllun sef 280 o bobl i gymharu â 279 yn 1997 sef blwyddyn gyntaf y Cynllun. Roedd cynnydd o 12 person eleni ond cynnydd o 104% ers dechrau'r cylch 3 blynedd presennol.**

4) **Cynnydd yn nifer y dosbarthiadau – 104 i gymharu â 90 yn 2014, 83 yn 2013 a 79 yn 2012. Y nifer uchaf yn hanes y Cynllun.**

5) **Connecting Classrooms – Sefydlwyd cynllun rhwng Ysgol Gymraeg Gaiman ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth.**

6) **Datblygiadau arwyddocaol yn natblygiad addysg gynradd yn y Dyffryn ac yn Yr Andes.** ***Gweler tudalen 10 – 14*** **.**

7) **14 o oedolion wedi pasio arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Eleni oedd y tro cyntaf i ddysgwyr Y Wladfa basio arholiadau ar bob lefel.** ***Gweler y canlyniadau ar dudalen 9.***

8) **Cyfrannu at gynnal nifer fawr o deithiau a digwyddiadau gan sefydliadau a grwpiau gwahanol e.e. Yr Urdd, Catrin Finch, Cerddorfa'r BBC , sawl cwmni theatr ac wrth gwrs Prif Weinidog Cymru , Carwyn Jones**

# TRAWEFFAITH Y CYNLLUN

## YSTADEGAU

**1 Cydlynydd Dysgu – Clare Vaughan**

**1 Cydlynydd Gweinyddol – Luned Gonzalez**

**3 o Athrawon/Swyddogion Menter Patagonia**

**Eluned Jones ( Yr Andes ) ( 50% addysgu a 50% Menter Patagonia)**

**Ann-Marie Lewis ( Y Dyffryn) ( 75% addysgu a 25% Menter Patagonia)**

**Fabio Lewis ( Y Dyffryn ) ( 75% addysgu a 25% Menter Patagonia)**

**32 o athrawon/tiwtoriaid lleol**

## Nifer y dosbarthiadau:

**104 o ddosbarthiadau yn 2015 ( 90 yn 2014, 83 yn 2013 a 79 yn 2012 )**

## *Y nifer fwyaf yn hanes y Cynllun*

| Gaiman<br>( gan gynnwys Dolavon) | Trelew<br>(gan gynnwys Rawson, Porth Madryn a Comodoro) | Yr Andes |
|---|---|---|
| **52** (39) | **25** (27) | **27** (24) |

## Nifer y dysgwyr: *Y nifer fwyaf yn hanes y Cynllun*

| | Gaiman | Trelew | Yr Andes | *CYFANSWM* |
|---|---|---|---|---|
| 2015 | **739** | **200** | **281** | ***1220*** |
| 2014 | 722 | 251 | 201 | 1174 |
| 2013 | 657 | 171 | 157 | 985 |
| 2012 | 607 | 145 | 225 | 977 |
| 2011 | 582 | 133 | 131 | 846 |
| 2010 | 527 | 85 | 150 | 762 |
| 2009 | 474 | 76 | 153 | 703 |
| 2008 | 378 | 97 | 112 | 587 |

## Niferoedd o ran haenau oedran y dalgylchoedd: *Niferoedd 2014 mewn cromfachau.*

| | Meithrin | Ôl feithrin | Plant Cynradd | Arddegau | Oedolion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gaiman | 54 (48) | 46 (36) | 215 (247) | 333 (323) | 91 (68) | 739 (722) |
| Trelew | 8 (14) | 15 (10) | 77 (113) | 0 (0) | 100 (114) | 200 (251) |
| Yr Andes | 69 (74) | 12 (5) | 94 (10) | 17 (26) | 89 (86) | 281 (201) |
| Cyfanswm | 131 (136) | 73 (51) | 386 (370) | 350 (349) | 280 (268) | 1220 (1174) |

**1220 yw'r cyfanswm mwyaf yn hanes y Cynllun.**

**Mae hyn yn gynnydd o 3.9% eleni a 25% ers dechrau'r cylch 3 blynedd ( 2012-2015). ( 977 o bobl yn 2012 ).**

**Roedd 573 yn dysgu yn 1997 sef blwyddyn swyddogol gyntaf y Cynllun felly ers y flwyddyn honno mae'r niferoedd wedi cynyddu gan 113%.**

**280 yw'r nifer fwyaf o oedolion yn dysgu'r iaith ers dechrau'r Cynllun**

**Mae'r cynnydd a wnaethpwyd y llynedd yn Yr Andes wedi'i gynnal a'i ymestyn oherwydd atgyfodi cyrsiau mewn ysgol gyfrwng Sbaeneg yn Esquel**

**Mae gostyngiad yn niferoedd cynradd yn Gaiman oherwydd dosbarthiadau ail iaith a dylid nodi bod y datblygiadau cyffrous a ddigwyddodd eleni gydag Ysgol Gymraeg y Gaiman yn debygol iawn o arwain at gynnydd yn nifer plant sy'n mynychu addysg ddwyieithog.**

**Er y gostyngiad yn Nhrelew ( cynradd ) mae'r ffigur yn debyg iawn i ffigur 2013 (82). Esboniad posib am hyn yw'r sefyllfa economaidd a rhieni heb yr incwm ychwanegol i dalu ffioedd ysgol.**

## Niferoedd o ran lefelau iaith – Oedolion

| | Cyn Fynediad | Mynediad (Wlpan 1) | Sylfaen (Wlpan 2) | Canolradd (Pellach) | Uwch a Meistroli | Hyfedredd (Gloywi) | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gaiman | 42 (8) | 8 (28) | 15 (6) | 3 (0) | 2 (8) | 21 (18) | 91 (68) |
| Trelew | 20 (32) | 41 (50) | 16 (15) | 12 ( 0) | 0 (2) | 11 (15) | 100 (114) |
| Yr Andes | 29 (42) | 13 (6) | 14 (7) | 16 ( 3) | 10 (13) | 7 (15) | 89 (86) |
| Cyfanswm | 91 (82) | 62 (84) | 45 (28) | 31 (3) | 12 (23) | 39 (48) | 280 (268) |

**280 yw'r nifer fwyaf yn hanes y Cynllun. Yn 1997 roedd 279 o oedolion yn dysgu. Fodd bynnag rhaid cofio roedd y Cynllun 'swyddogol' newydd ddechrau ac oedolion oedd prif ffocws y gwaith a bron hanner ( 49% ) yr holl ddysgwyr. Erbyn hyn oedolion yw rhyw 23% o holl ddysgwyr Y Wladfa sef yr un ganran a'r llynedd. Mae'r ffaith bod y Cynllun yn medru denu cynifer o bobl ar ôl bron ugain mlynedd yn dangos yn glir bod y diddordeb ymhlith pobl Y Wladfa yn gryf iawn o hyd.**

**Er y cynnydd cymharol fach eleni dylid edrych ar hyn yng ngoleuni y cynnydd sydd wedi ei wneud dros gyfnod o bum mlynedd ac wrth gwrs y ffaith mai dim ond 72 o oedolion oedd yn dysgu'r iaith yn ôl yn ystod 2009.**

**2011 114**

**2012 137**

**2013 174**

**2014 268**

**2015 280**

**Gwelir o'r ffigur uchod bod parhad da ar y cyfan rhwng cyrsiau cyn fynediad y llynedd ag Wlpan1( Mynediad ) eleni a bod cynnydd sylweddol ar lefel Wlpan 2 ( Sylfaen ) a Pellach (Canolradd). Roedd niferoedd Uwch/Meistroli/Hyfedredd wedi gostwng ond yr oedd hyn yn ddisgwyliedig. Eleni nid oedd modd i bawb fynychu dosbarthiadau oherwydd yr holl ddathliadau yn ymwneud â'r Canmlwyddiant a Hanner gan mai'r bobl hynny oedd yn aml yn gyfrifol am drefnu neu gydlynu digwyddiadau. Dengys hyn bod modd cynyddu'r cyfanswm uchod i 300+ yn y dyfodol gan barhau ar y trywydd presennol ac wrth ddenu'r dysgwyr 'rhugl' yn ôl yn ystod 2016.**

## Oriau yn ôl y dalgylchoedd

| | Gaiman (yn cynnwys Dolavon) | Trelew (yn cynnwys Rawson, Madryn a Comodoro) | Yr Andes (Esquel a Threvelin) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Meithrin | 20 awr 20 mun | 17 awr 30 mun | 16 awr 40 mun | 54 awr 30 mun |
| Ôl-feithrin | 17 awr 20 mun | 17 awr 30 mun | 3 | 37 awr 50 mun |
| Plant cynradd | 18 awr | 91 awr 20 mun | 9 | 118 awr 20 mun |
| Arddegau | 20 awr | 0 | 10 | 30 awr |
| Oedolion | 16 awr 45 mun | 34 awr 20 mun | 32 | 83 awr 5 mun |
| | 92 awr 25 mun (91 awr 40 mun) | 160 awr 40 mun (150 awr 20 mun) | 70 ar 40 mun (59 awr 30 mun) | 323 awr 45 mun (301 awr 30 mun) |

**Mae mwy o oriau eleni nag erioed o'r blaen. Eleni oherwydd dathliadau 2015 roedd Talaith Chubut wedi cynyddu yr oriau y talon nhw amdanynt.**

**Rydym wedi gweld cynnydd cyson yn nifer yr oriau wythnosol dros gyfnod o bum mlynedd , sef 60 awr 45 munud neu bron 19% er 2011.**

**323 awr 45 munud yn 2015**

**301 awr 30 munud yn 2014**

**310 awr 40 munud yn 2013 ,**

**245 awr yn 2012**

**263 awr yn 2011**

## Arholiadau CBAC ( Cymraeg i Oedolion )

| **MYNEDIAD**<br>*Llwyddo* **neu** *methu* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Dalgylch** | **Marc (400)** | **CANLYNIAD** |
| 1 | **Trelew** | **347** | **Llwyddo** |
| 2 | **Trevelin** | **246** | **Llwyddo** |
| 3 | **Trelew** | **306** | **Llwyddo** |
| 4 | **Gaiman** | **334** | **Llwyddo** |
| | **SYLFAEN**<br>**Methu, Llwyddo (240 – 319) neu Rhagoriaeth (320 +)** | | |
| 1 | **La Plata/Esquel** | **344** | **Rhagoriaeth** |
| 2 | **Mendoza** | **270** | **Llwyddo** |
| 3 | **Comodoro** | **265** | **Llwyddo** |
| 4 | **Esquel** | **200** | **Methu** |
| 5 | **La Plata/Trelew** | **250** | **Llwyddo** |
| 6 | **Esquel** | **353** | **Rhagoriaeth** |
| 7 | **Comodoro** | **241** | **Llwyddo** |
| 8 | **Gaiman** | **216** | **Methu** |
| 9 | **Trevelin** | **248** | **Llwyddo** |
| | **CANOLRADD**<br>**Methu, Llwyddo (240 – 319), Rhagoriaeth (320+)** | | |
| 1 | **Esquel** | **284** | **Llwyddo** |
| **UWCH**<br>**Gradd A: 300 - 400 Gradd D: 160 - 199 Methu**<br>**Gradd B : 250 - 299 Diddosbarth : 0 - 159 Methu**<br>**Gradd C: 200 - 249** | | | |
| 1 | **Gaiman** | **333** | **Gradd A** |
| 2 | **Gaiman** | **323** | **Gradd A** |

Dyma’r flwyddyn gyntaf yn hanes y Cynllun i weld ymgeiswyr ar bob lefel o’r arholiadau ac mae’n dangos sut mae’r dysgwyr yn gweld statws a pwrpas i sefyll arholiad allanol. Y mae’n wych gallu canmol dysgwyr ar bob lefel sydd wedi ymdrechu yn erbyn yr holl anawsterau i ddysgu ail-iaith ac i astudio er mwyn sefyll arholiad ac rhaid clodfori’r tiwtoriaid lleol yn ogystal â’r swyddogion o Gymru sydd wedi gweithio gyda’r myfyrwyr er mwyn iddynt fod yn barod ar gyfer y profion. Diolch hefyd i Emyr Davies CBAC am ei waith yn gadael i ni gymryd rhan yn y broses arholi.

Un broblem fach oedd sut i gael y tystysgrifau i’r Wladfa nawr bod hi’n anodd anfon unrhyw beth yn y post oherwydd rheolau mewnforio a felly diolch i garedigrwydd Eirian Wyn Lewis a chriw o deithwyr bydd yr ymgeiswyr yn derbyn eu tystysgrifau! Enghraifft o gydweithio effeithiol rhwng y ddwy wlad. *( Clare Whitehouse – Cydlynydd Dysgu)*

## YSGOL GYMRAEG Y GAIMAN

Ar ôl blynyddoedd o aros,  yn 2013 enillwyd statws swyddogol i'r ysgol ac eleni ym mis Gorffennaf symudwyd yr ysgol i adeilad newydd yn Gaiman ar safle hen ysgol 415.

Un broblem fawr i'r ysgol yn y gorffennol oedd cyflwr a maint ei hen safle. Wrth symud i'r adeilad newydd bydd modd cynllunio'n well ac o safbwynt rhieni'r cylch mae'r adeilad newydd a naws ysgol 'go iawn' ac yn sicr mae hyn yn rhoi mwy o statws i'r ysgol ei hun. Rhaid cofio bod rhieni'n talu swm misol o 600 peso am 10 mis yn ystod y flwyddyn er mwyn derbyn addysg ddwyieithog ac o ganlyniad mae statws a chyflwr adeiladau ac ati yn bwysig wrth ddenu pobl newydd. Yn wir mae'n arwyddocaol bod niferoedd wedi tyfu dros y blynyddoedd er yr holl anawsterau felly dylai'r dyfodol fod yn llewyrchus i'r ysgol yn ei chartref newydd.
Profwyd hyn yn ystod yr ymweliad monitro ym mis Gorffennaf pan welwyd plant newydd yn ymuno â'r ysgol o fewn wythnosau iddi symud i'r safle newydd.

Eleni am y tro cyntaf roedd modd cynnal dosbarth Blwyddyn 1 ac adeg yr ymweliad monitro roedd 64 o blant yn yr ysgol ac roedd y ffigur yn cynyddu. Wrth i'r ysgol dyfu byddai'n bosib cynnig addysg i ryw 150 o blant yn y pendraw ond mwy na thebyg byddai angen adeiladu ystafelloedd dosbarth ychwanegol mewn 3 neu 4 blynedd er mwyn gwireddu hynny.

Fodd bynnag, mae llwyddiant yn medru creu problemau eraill ac mae un her amlwg i'r athrawon oedd sicrhau bod hwyrddyfodiaid yn medru cymathu ag addysg ddwyieithog yn llwyddiannus heb amharu ar allu'r plant eraill i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae sicrhau addysg gwbl ddwyieithog yn heriol mewn sefyllfa lle nad yw pob aelod o'r staff yn medru'r Gymraeg yn rhugl. Mae athrawon y Cynllun wedi rhoi gwersi i staff ac yn cyfrannu at wersi er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn holl bresennol yn ystod y dydd.

Mae angen i'r ysgol gynllunio'n ofalus i sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn sylw haeddiannol ac wrth drafod gyda rheolwyr yr ysgol ymddengys bydd hyn yn digwydd. Mae'r Cynllun ei hun yn medru eu cynorthwyo mewn sawl ffordd gan gynnwys rhoi cymorth ymarferol i gynllunio'r cwricwlwm a gwneud y defnydd gorau o adnoddau addysgol a dynol. Yn 2013 roedd Eluned Jones yn gweithio ar ran y Cynllun yn Ysgol Gymraeg Gaiman ac wedi

cydweithio â nhw yn llwyddiannus iawn. Yn 2015 symudodd Eluned i'r Andes i gynorthwyo yn bennaf gyda'r gwaith o sefydlu Ysgol y Cwm. Mae'r Cynllun yn ffodus bod modd ei phenodi eto eleni ac yn 2016 y bydd hi'n gweithio yn Gaiman unwaith eto gan ganolbwyntio ar addysg gynradd. Mae'r fath ddilyniant a pharhad yn bwysig a bydd yr ysgol yn elwa o'i phrofiad helaeth y flwyddyn nesaf.
Yn 2016 cynhelir y Cylch Ti a Fi , Meithrin 3 a 4 oed rhwng 07.50 - 12.30 .
Cynhelir dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn rhwng 07.50 – 14.50.

Mae'r ysgol yn edrych ar ffyrdd o ddenu a chadw plant ac i'r perwyl hwn sefydlwyd Clwb Cymraeg  sy'n cael ei gynnal ddwywaith yr wythnos, ( dydd Mawrth 17.00-19.00 a dydd Iau 17.30-19.00). Mae staff yr ysgol ac athrawon y Cynllun yn cynnal y datblygiad pwysig hwn.

Enghraifft arall o waith blaengar yr ysgol yw'r ffaith ei bod wedi creu partneriaeth Connecting Classrooms gydag Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Yn barod mae dirprwyaeth o Gymru wedi bod yn Gaiman i arsylwi a chyfnewid syniadau ac ym mis Ionawr 2016 bydd athrawes o Gaiman yn teithio i Aberystwyth.
Mae'r Cynllun hefyd wedi darparu ysgoloriaeth  i athrawes sy'n addysgu cerddoriaeth yn yr ysgol i arsylwi yng Nghymru yn 2016.
Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd yr ysgol hon i ddyfodol y Gymraeg yn y Dyffryn ac ym mhentref mwyaf Cymraeg y Wladfa. Oherwydd henaint mae'r hen do o siaradwyr Cymraeg brodorol yn lleihau yn flynyddol a dim ond trwy addysg ddwyieithog byddwn ni'n medru cynhyrchu digon o siaradwyr Cymraeg. Heb os mae heriau mawr o ran cyllid, adnoddau, staff ac ar adegau diffyg dealltwriaeth awdurdodau addysg y dalaith ynglŷn â natur addysg ddwyieithog. Bydd angen i'r Cynllun gynorthwyo gyda phob un o'r agweddau hyn ond wrth wneud hynny yn iawn mae'n bosib gwireddu'r nod a sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith Gymraeg yn Gaiman.



# DATBLYGIADAU YSGOL Y CWM Hydref 2015

## Cefndir

Ers 2013 ac fel canlyniad i waith llwyddiannus y Cynllun Dysgu Cymraeg mae gwaith wedi bod yn mynd ymlaen er mwyn sicrhau y bydd cofeb byw yn Nhrevelin i farcio Canmlwyddiant a Hanner cyrhaeddiad y Cymry cyntaf i'r Wladfa. Er bod llawer o brosiectau diddorol a gwerthfawr y teimlad yn Nhrevelin oedd bod angen gwneud rhywbeth y byddai'n sicrhau dyfodol i'r iaith ac felly i'r diwylliant. Dechreuwyd yr holl broses o gydweithio gyda'r Llwyodraeth i greu y dogfennau angenrheidiol ac aeth y darnau o dir dros y ffordd i'r capel hanesyddol ar werth er mwyn dehrau adeiladu yr hyn fydd yn ysgol gynradd yn y dyfodol.

Erbyn heddiw mae Rhan I yr adeilad yn edrych yn debyg iawn i ysgol ond mae angen gorffen y tu fewn, rhoi'r lloriau, goleuadau , tai bach, cegin, peintio, dodrefnu…Diolch i Gymdeithas Gymraeg Trevelin rydym wedi cyrraedd at y fan lle ydym: addawyd miliwn a hanner o besos gan y Llywodraeth ac hyd yn hyn er gofyn a gofyn rydym ond wedi derbyn 33,000. Diolch hefyd i waith y Pensaer Marcelo Roberts sydd yn gweithio yn rhad ac am ddim mae gennym arbenigwr sydd yn rhedeg ar ôl y gweithwyr a'r Cyngor lleol.

Y broblem fwyaf i ni ar hyn o bryd ydy'r sefyllfa wleidyddol. Os bydd y darlun gwleidyddol yn newid pwy a ŵyr beth ddigwyddith i'r arian a addawyd. Rydym yn byw mewn ffydd ond gyda digon o ansicrwydd ac mae amser yn pasio ac mae rhaid i rieni ddechrau chwilio am ysgolion i'w plant ac os nad ydy'r Llywodraeth wedi rhoi'r rhif derfynol i ni bydd yn anodd iawn arnom

## Sut rydym yn gweithio heddiw

Ar hyn o bryd mae'r dosbarth Meithrin yn mynychu bob pnawn rhwng 13.40 a 17.00 o dan ofal athrawes Sbaeneg Jessica Hopkins a gyda gweithiwr drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn gweithio ochr yn ochr a hi, oriau gan Jessica Jones sydd wedi bod yn gweithio ers blynyddoedd gyda'r plant lleiaf ac sydd rwan yn gweld ffrwyth ei dyfalbarhad, Eluned Jones ein swyddog o'r Cynllun eleni sydd wrthi yn rhannu ei harbenigedd gyda ni, Iwan Madog sydd yn cael ei gyflogi gan unigolyn er mwyn ein galluogi i gynnig yr holl ddarpariaeth rydym eisiau eleni mewn blwyddyn mor arbennig, Eluned Grandis cyn swyddog sydd rwan wedi priodi ac yn byw yn y Cwm, ac Margarita Green sydd wedi mynychu cyrsiau yng Nghymru ac sydd rwan yn dysgu eraill, heb sôn am yr athrawon lleol sydd yn cynnig gwersi Ymarfer Corff a Cherddoriaeth, Camila Itxassa a Maria de Oro.

Mae popeth yn cael ei wneud mewn tîm ac rydym wedi bod mor lwcus i ddod o hyd i Jessica Hopkins; er bod hi yn ddi-Gymraeg mae hi'n deall yr hyn rydym yn ceisio ei wneud ac yn 100% y tu ôl i'r prosiect. Eleni yr ysgol sydd yn ei chyflogi felly mae anfanteision mawr o ran blynyddoedd pensiwn ayyb ond mae hi gyda ni . Rydym wedi cyflwyno rhestr o swyddi a phobl posib i'w cymryd i'r Llywodraeth er mwyn iddynt dalu o fis Chwefror ymlaen gan

gynnwys rhai oriau i bobl sydd yn siarad Cymraeg fel partneriaid dysgu ochr yn ochr â'r athrawon iaith Sbaeneg.

Rydym wedi dod o hyd i athrawes gymwysedig i gymryd rôl Pennaeth yr ysgol ac mae hi er yn ddi-Gymraeg yn agos at y gymuned felly yn deall o ble mae'r breuddwyd wedi dod. Mae dwy athrawes arall ar fin gadael y coleg wedi bod yn arsylwi i weld os ydynt o blaid y math o waith rydym yn ceisio ei wneud ac os bydd cyflogau ar gael mae'n debyg nhw fydd yn cymryd awenau'r dosbarthiadau newydd.

Eleni oherwydd presenoldeb Eluned Jones, arbenigwraig ar waith plant bach, rydym wedi gallu gweithredu system rota lle mae'r plant wedi bod yn cael sesiynau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Sbaeneg gyda'r gobaith y bydd hyn yn bosib y flwyddyn nesaf hefyd Mae'r cydweithrediad rhwng Jessica hopkins ac Eluned Jones wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect eleni ac yn sail ardderchog i'r hyn fydd yn dilyn.

Pan fydd yr ysgol yn barod bydd yr holl weithdai iaith sydd wedi bod yn digwydd yn yr hen Dŷ Capel yn gallu symud i'r adeilad newydd gyda'r gobaith y bydd yr hen Dŷ yn gallu cael ei drwsio i fod yn gartref i'r swyddog sydd yn dod o Gymru a/neu y gwirfoddolwyr rydym yn gobeithio bydd yn dod i'n helpu ni. Mae pawb yn gyffrous wrth feddwl am gael dysgu mewn adeilad newydd ond mae tipyn o ffordd i fynd eto. Y gobaith ydy cychwyn gwersi 2016 yn yr adeilad newydd ond byddai mwy o arian gan y Llywodraeth yn sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae prinder llefydd mewn ysgolion yn Nhrevelin felly mae hyn yn rhywbeth fydd yn gymorth i ni gan bod ni yn datrys problemau ysgolion y dref iddynt ond am bris.



## **Y dyfodol**

Rydym wedi anfon Prosiect Cwricwlwm yr ysgol ynghyd â chopi diwygiedig o Gynllun Addysgiadol yr ysgol at y Llywodraeth cyn yr etholiadau (25 Hydref) gyda'r gobaith y bydd ateb yn dod yn fuan wedyn am ein rhif terfynol.  Mae creu ysgol o ddim yn waith go anodd yn enwedig gan bod ni yn bobl sydd yn caru'r iaith a'r diwylliant ond sydd erioed wedi gorfod creu rhesymeg am yr hyn rydym yn ei wneud:  hynny oherwydd nad oes gan Lywodraeth Talaith Chubut bolisi am ysgolion dwyieithog felly rhaid i ni fod yn 'aml-ddiwylliannol' ond cyfiawnhau'r hyn rydym yn ceisio ei wneud.

Er mwyn cadw'r arfer dda rydym angen mewnbwn gan swyddog y Cynllun 2016 yn ogystal ag oriau gan y Llywodraeth i'r athrawon Sbaeneg a Chymraeg a'r helpwyr ond fel mae amserlen 2015 yn dangos mae nifer o ffrydiau arian yn dod atom i helpu ni i gyflawni'r gwaith.

Dim ond rhaid edrych ar wynebau'r plant wrth iddynt ganu neu gael y cyfle i gyffwrdd â thelyn neu blannu hadau neu goginio ac mae rhywun yn gweld gwerth y ffordd rydym yn teithio arni ac hynny sydd yn cadw ni ar ben y ffordd pan mae anawsterau yn codi.  Mae Pwyllgor yr Ysgol yn gasgliad go arbennig o bobl a gobeithio y bydd yn bosib adeiladu ar eu gwaith wrth i'r ysgol dyfu. *CLARE VAUGHAN*



# Menter PATAGONIA

Aethpwyd ati yn 2009 i osod amcanion Menter Patagonia sef:

1.Rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol i normaleiddio defnydd o'r iaith mewn trawstoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol – ymestyn ei defnydd cymdeithasol.

2. Dylid anelu at gynnal amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, achlysuron a gweithgareddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg – rhwng 10 a 13 awr yr wythnos ym mhob lleoliad - rhwng 20 ac 26 awr yr wythnos o weithgareddau yn Nyffryn Camwy a chyfanswm cyfatebol yng Ngodre'r Andes. Gellid awgrymu gweithgareddau fel a ganlyn.

3. Gweithgarwch ar gyfer plant meithrin a'u rhieni. Gallai hyn fod yn gyfle i ennyn diddordeb yn y rhieni a'u cael i ddosbarth Cymraeg – o leiaf un sesiwn yr wythnos.

4. Gweithgareddau ar gyfer plant cynradd – chwaraeon, crefftau, peintio a gwaith llaw, gemau, natur a'r amgylchedd, dawnsio gwerin, grŵp canu/ actio, grwpiau chwarae fore Sadwrn, clybiau gwyliau, hobïau ac ati.( dwy haen oedran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos)

5. Gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol eilradd - Aelwyd yr Urdd, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau cymdeithasol. (dwy sesiwn yr wythnos os yn bosibl).

6. Gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer oedolion. – cwis, sioe ffasiwn, coginio, blasu gwahanol fathau o fwyd ,grwpiau trafod neu ddadlau, grwpiau sgwrsio ,grwpiau gwahanol hobïau ,gwersi cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr, clybiau cerdded, seiclo, mynydda, sgïo, clwb cinio, nosweithiau llawen, sgyrsiau a darlithoedd, dawnsio gwerin, picnic, gwibdeithiau, nosweithiau ffilmiau ac ati.

7. Gweithio'n glos â mudiadau lleol Cymreig i'w hysbrydoli - megis yr *eisteddfod, cyrddau cystadleuol, y capeli.*

8. Ceisio ymestyn defnydd gweledol o'r Gymraeg yn lleol. – y radio, yr amgueddfeydd ac ati.

Mae cyllid gan y Cynllun i gyflogi un person ar gyfer gweithgareddau Menter Patagonia. Felly er mwyn sicrhau bydd presenoldeb gan y Fenter yn y ddwy ardal hanner swyddi ( 0.5) sydd yn y ddau ddalgylch mewn gwirionedd.

Treuliwyd 50% o amser Eluned Jones ar waith y Fenter yn Yr Andes a 25% o amser Ann-Marie Lewis a 25% o amser Fabio Lewis ar waith Menter Patagonia yn y Dyffryn.

# <u>Digwyddiadau Menter Iaith Dyffryn Camwy 2015</u>

Mae hon wedi bod yn flwyddyn eithriadol o brysur i'r Fenter yn Nyffryn Camwy, gydag amrywiaeth helaeth o wahanol weithgareddau yn cymryd lle er mwyn hyrwyddo a hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Dyffryn.

Uchafbwynt personol i ni yw cyflwyno Tlws Dysgwr y Flwyddyn Patagonia. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r gystadleuaeth hon fodoli ac rydym yn ymfalchïo'n fawr yn y ffaith ein bod wedi ei sefydlu a bod 5 wedi mynd ati i gystadlu. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gyhoeddi enw'r dysgwr buddugol yn Eisteddfod y Wladfa. Mae Menter yn cyfrannu $1000 peso i'r enillydd a Phwyllgor yr Eisteddfod yn cyflwyno medal.

Rydym wedi tynnu cryn dipyn o sylw at yr angen am ddarpariaeth o raglenni Cymraeg ar y we yn fyd-eang yma. Mae S4C wedi mynd ati i ychwanegu mwy o raglenni at eu casgliad sydd ar S4C clic, ac mae holl raglenni cyfredol CYW i'w gweld yn fyw ar CYW TIWB. Adnodd amhrisiadwy i ddatblygu sgiliau llafar y plant yma. Mae modd gwylio CYW TIWB yn Ysgol y Gaiman ac yn Ysgol yr Hendre Moreno.

Yn sgil hyn, fe drefnon ni sawl digwyddiad yn Nhrelew ac yn y Ganolfan Ddiwylliant yn y Gaiman, i ddangos rhaglenni ar Batagonia, e.e rhaglen Huw Edwards – Patagonia, a GALESA. Roedd is-deitlau gyda GALESA ac o'r herwydd roedd tua 60 o bobl yn bresennol yn y Gaiman i wylio ac fe gafodd bawb ddarn o deisen ddu ar y ffordd mewn!

Rydym wedi trefnu sawl oedfa uniaith Gymraeg eleni, ac wedi ymdrechu i gynnal oedfa unwaith y mis yng nghapel Bethel, Gaiman. Yn ogystal, rydym wedi trefnu oedfaoedd uniaith Gymraeg mewn rhai o gapeli Cymraeg y Dyffryn – Glan Alaw a Salem, Lle Cul. Mae'r ymateb wedi bod yn wych a'r capeli bach yn llawn. Uchafbwynt arall i ni fydd Gwasanaeth Carolau a Chanhwyllau yn Nghapel Glan Alaw fis Rhagfyr, lle fydd pawb yn dod a channwyll gyda nhw. Mae sawl un o Gymry'r Dyffryn wedi bod yn barod iawn i'n cynorthwyo trwy gymryd rhan a diolch yn fawr iddyn nhw am wneud!

Mae Elin Fflur a Casi Wyn wedi diddanu cynulleidfaoedd mawr yn Boru, Trelew dan drefniant y Fenter a Dosbarthiadau Cymraeg, Trelew. Nosweithiau hynod ddifyr a oedd wedi denu bobl o'r tu allan i'r cylch Cymreig arferol, a llawer iawn o bobl ifanc yn bresennol hefyd!

Cynhaliwyd cyfres o nosweithiau ar Hanes Cymru ar hyd y Dyffryn yng nghwmi Frank Holloway, gyda Tito, Ana a Luned yn cyfieithu. Roedd tua 40 yn bresennol ym Mhorth Madryn.




Eleni, rydym wedi ceisio cynnal digwyddiadau yn y Dyffryn Uchaf. Cynhaliwyd diwrnod Fy Ardal I, yn Nhir Halen, gyda Nivia Owen a Leila MacDonald yn arwain trwy sôn am eu profiadau o dyfu lan yn yr ardal. Agorwyd yr Amgueddfa ar ein cyfer, a fferm hanesyddol Tir Gobaith, lle cawsom fwynhau picnic yn yr haul dan y coed helyg, a chymdeithasu.

Fe fuon ni hefyd fel Menter ar daith i Lain Las a Chapel Bryn Crwn.

Cynhaliwyd noson gyri ac ychydig o ganu yn Ysgol yr Hendre, Moreno.

Cynhaliwyd noson bitsas a sgwrs ar y Fari Lwyd, gan Suzanne Condon o Ganolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd, yn Gwalia Lân.

Cynhaliwyd Twmpath hefyd yn Ysgol yr Hendre, Rivadavia dan arweiniad Suzanne Condon.

Fe ddathlon ni Ddiwrnod y Gwanwyn yma trwy fynd ar daith gerdded o gwmpas Llyn Chiquichano, Trelew, a mate blasus i orffen.

Fe ddathlon ni Ddiwrnod y Llyfr, yn syth ar ôl i ni gyrraedd yma, trwy fynd o gwmpas y Gaiman yn tynnu lluniau amryw o bobl â llyfr Cymraeg.

Fe ddathlon ni Ddiwrnod Shwmae Sumae yma, ac fe fu disgyblion Coleg Camwy yn llunio ac yn cwblhau cwis ar Gymru.

Buon ni yn ffilmio yn Ffair Grefftau Tir Halen ac yn codi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith y di-Gymraeg. Roedd heddwas hyd yn oed wedi dweud gair wrth y camera!!

Bu Menter y Dyffryn yn brysur iawn hefyd yn ymgymryd â gwaith cyfieithu, trosleisio, cael ein cyfweld, recordio, helpu cwmniau lleol i ddefnyddio ychydig o Gymraeg wrth hysbysebu.

Fe fuon ni'n gyfrifol am osod bwrdd du mawr y tu allan i Dŷ Camwy – Cornel Cymraeg Camwy – ac arno idiom a gair yr wythnos a gwahanol hysbysiadau er mwyn tynnu sylw'r disgyblion at yr iaith. Bu'n boblogaidd iawn!

Fel Menter, dilynom gemau Cymru yng Nghwpan y Byd, ac fe ymunodd dysgwyr a Chymru gyda ni yn y Touring Club, Trelew a Genesis, Gaiman i gymdeithasu a gwylio'r gemau! Cafwyd llawer o hwyl!

Rydym wedi ymdrechu i fod yn bresenoldeb Menter, a theulu mewn cynifer o ddigwyddiadau y 150 â phosib, gan gymryd rhan yn ôl y galw, trwy ddarllen, canu unawdau mewn amrywiol wasanaethau capel a chyngherddau ar hyd y Dyffryn. Profiad personol, emosiynol i mi oedd darllen llythyr Edwyn Cynrig Roberts mewn cwrdd goffa ar y twyni tywod ger yr ogofau ym Mhorth Madryn. Roedd y ddau ohonom hefyd yn aelodau o Gôr yr Ysgol Gerdd ac yn bresennol mewn sawl cyngerdd ac Eisteddfod.



Roedd Menter yn brysur yn Eisteddfod y Bobl Ifanc, yn cyfieithu a beirniadu, a ninnau ar drothwy Eisteddfod y Wladfa, fe fyddwn yn hyfforddi, beirniadu, cyflwyno, ac yn gyfrifol am seremoni Dysgwr y Flwyddyn.

Fel Menter, a theulu, rydym wedi bod yn bresennol ym mhob Eisteddfod a gynhaliwyd eleni. Eisteddfod Trevelin – cystadlu gyda chôr yr Ysgol Gerdd; Eisteddfod Dolavon yn cystadlu ac yn hyfforddi unigolion ar gyfer cystadlaethau adrodd; Mini Eisteddfod Capel Bethel lle bu

Ifan a Miriam yn cystadlu yn unigol a gydag Ysgol y Gaiman, a buon ni yn hyfforddi; Eisteddfod Mimosa lle bu'r plant yn cystadlu a Tito a finnau yn beirniadu y gwaith cyfieithu ac yn hyfforddi, dyma hefyd ble lansiwyd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn; Eisteddfod y Bobl Ifanc yn hyfforddi, plantos yn cystadlu, yn beirniadu ac yn cyfieithu ac Eisteddfod y Wladfa, lle byddwn eto yn hyfforddi, cystadlu, beirniadu, cyflwyno ac yn gyfrifol am un o'r prif seremonïau.

Cyfrannon ni at waith trefnu Taith yr Urdd.

Roedd Menter yn cynorthwyo gyda nifer o ymweliadau eleni, gan gynnwys gwneud tipyn o gyfieithu i bobl megis, Elin Fflur, Casi Wyn, Dafydd Tudur a Berian Ellis o'r Llyfrgell Genedlaethol, y beirniad Cerddoriaeth Eric Jones a'i wraig, Gwen, Cefyn Burgess o Ffatri Wlân Drefach.

Bu Menter ynghyd â Phwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am ymweliad y beirniad cerddoriaeth adnabyddus, Eric Jones, a dreuliodd chwe niwrnod yn y Gaiman gyda'i wraig, Gwen. Buom yn eu tywys o gwmpas y Dyffryn, a chynhaliwyd pnawn hyfryd yn y Mercante yn Nolavon, bu'n arwain ei ddarn ef 'O Fab y Dyn', yn ymarfer côr yr Ysgol Gerdd.

Heb os, mae'n rhaid talu diolch arbennig i wragedd Dolavon, dan arweiniad Nivia Owen, a fu'n brysur gyda ni yn trefnu sawl te hynod o flasus i ymwelwyr â'r ardal – Eric a Gwen Jones, Dafydd Tudur a Berian Ellis. Fe fyddwn hefyd yn cael pnawn yng nghwmni Hazel Charles Evans yn fuan. Fel dosbarth Siaradwyr Dolavon, rydym yn darllen ei llyfr, Siwrne 13, a phob un ohonom wedi cael ein heffeithio gan y cynnwys. Roeddwn i gyd felly yn hynod awyddus i gael y cyfle o dreulio pnawn yng nghwmni Hazel er mwyn sgwrsio am y llyfr. Mae Hazel wedi cytuno yn llawen i ddod i Ddolavon, ac fe fydd yna de arbennig yn ei disgwyl hi yno. Hoffwn bwysleisio pwysigrwydd trefnu digwyddiadau yn Nolavon a Thir Halen – mae yma griw brwdfrydig a gweithgar iawn!

Mae sawl ymwelydd ifanc o Gymru wedi bod ar daith yma yn ystod y flwyddyn, ac fel Menter, rydym wedi eu croesawu yma, a threulio llawer o amser yn eu cwmni. Mae drws Tŷ Camwy bob amser ar agor, a mate ar y bwrdd yn barod!

Fel Menter, fe fuon yn cynorthwyo adeg yr arholiadau yn y Gaiman.

Fe fuon ni'n cynorthwyo ffrindiau yma gyda help ffrindiau o Gymru – diolch i Catrin Jones am gasglu sawl CD ar gais Graciela Puw i ni, ar gyfer ei rhaglen radio – Cornel o Gymru yn Chubut.

Cynhaliwyd Cylch Llenyddol yma yn y Ganolfan Ddiwylliant ac fe ddaeth criw ohonom ynghyd dan arweiniad Esyllt Roberts, i drafod rhai o gerddi Eisteddfod y Wladfa.

Fel rhan o benwythnos yr Ŵyl Lenyddol, fe drefnom ni sesiwn Skype hynod fuddiol gyda rhai o ddisgyblion Ysgol yr Hendre, Trelew. Roedd y plant wrth eu boddau yn barddoni gyda'r bardd plant Aneurin Karadog! Fe fu Tito hefyd yn cyfieithu yn y Gaiman.

Roedd gan y Fenter stondin yn y Ffair Amaethyddol yn y Gaiman, ac yn Ffair Lyfrau a chynhaliwyd digwyddiadau i hyrwyddo'r Gymraeg yma.

Buon ni yn bresenoldeb gyda'r plant mewn sawl acto i ddynodi gwahanol ddyddiadau pwysig yn y Gaiman. Cafodd Ifan y cyfle i gario'r faner ar sawl achlysur.

Cynhaliwyd sawl 'social' / picnic yma i groesawu ymwelwyr o Gymru.

Buon ni'n brysur iawn gyda dwy Gymraes o'r Gaiman, yn tacluso ac yn paentio o gwmpas bedd John Lewis, Caernarfon, ar y paith cyn rhannu picnic gyda'n gilydd yn Gymraeg yn Rhyd yr Indiaid! Rydyn ni'n dal i obeithio y bydd arwydd yn cael ei chodi yma i ddynodi'r fan – rydym wedi ysgrifennu at Gymdeithas Dewi Sant.

Cynhelir taith diwedd blwyddyn gan y Fenter i Argae Florentino Ameghino – cyfle arbennig i gloi blwyddyn llawn dop gyda'n gilydd!



**GWEITHGAREDDAU MENTER PATAGONIA YN YR ANDES ( ELUNED JONES)**

| | Digwyddiad | Dyddiad | Niferoedd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Chwefror** | Te Croeso yn Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel | Dydd Llun Chwefror 23 | 14 | Roedd 2 wirfoddolwr sef Alan Lloyd a Haydn Jenkins yn bresennol o Gymru hefyd. |
| | Cyfarfod Arbennig yng Nghapel Seion Esquel i drafod trefniadau'r Dathliadau.<br><br>Swper yn y Ganolfan Esquel. Lle croesawyd pawb. | Dydd Mawrth Chwefror 24 | 28<br><br>Canolfan Llawn | Anerchiadau ysbrydoledig gan yr ymwelwyr Marc Phillips, yr Arglwydd Dafydd Wigley, Elinor Bennett ac Elvey MacDonald.<br><br>Datganiadau ar y delyn gan Elinor Bennett. Roedd yn noson gymdeithasol arbennig yng nghwmni'r gwesteion. |
| | Te prynhawn yn Nhy Te Nain Maggie, Trevelin.<br><br>Ymweld a safle Ysgol y Cwm, Trevelin gyda'r Pensaer Marcelo Roberts. | Dydd Mercher Chwefror 25 | 25<br><br>15 | Trefnwyd y te gan Isaias Grandis.<br><br>Cafwyd cyfle i edrych ar gynllun yr ysgol newydd a chanmolwyd y gwaith urddasol. |
| | Gorymdaith Esquel. | Nos Iau Chwefror 26 | | Cynrychiolaeth o'r dosbarthiadau Cymraeg ( Tua 30) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gorymdaith Trevelin gan gynnwys adloniant yng nghanol y dre yn yr awyr agored o flaen y Salon Central. | Nos Wener<br><br>Chwefror 27 | | Cynrychiolaeth o'r Dosbarthiadau Cymraeg ( Tua 50)<br><br>Dawnswyr Cwm Hyfryd – Jessica Jones ( 14)<br><br>Datganiadau Telyn Gwenan Gibbard | |
| **Chwefror 28ain – Mawrth 1af** | Patagonia Celtica. | Dydd Sadwrn a phrynhawn dydd Sul<br><br>Chwefror 28 a Mawrth1af | | Trefnwyd gweithgareddau amrywiol i'r plant ac oedolion ar stondin y dosbarthiadau Cymraeg yn Nhrevelin a Menter Patagonia.<br><br>Cyfle felly i gofrestru ar gyfer y flwyddyn. | |
| **Mawrth** | Cymanfa Ganu Bethel y Cwm. | Bore Sul Mawrth 1af | Cynulleidfa dda yno | | |
| | Noson Gymdeithasol yn y Ganolfan Esquel – Rhisiart Arwel, Gwenan Gibbard, Colin Edwards a Mervyn Evans. | Nos Lun Mawrth 2il | Neuadd yn gyfforddus llawn | Braf croesawu nifer o ymwelwyr o Gymru. Noson lwyddiannus. | |
| | Cyfweliad gan y newyddiadurwyr Paula a Jeremy Dear ar gyfer BBC Wales Adran Cymru trwy'r Saesneg yn y Ganolfan Esquel. | Dydd Llun<br><br>Mawrth 16eg | 5 | Treuliodd Liliana Celia Carballo, Michael Edgar Winter ac Eluned Jones | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfnod yn ateb cwestiynau a rhannu profiadau gyda'r ddau. | |
| | Ymweliad gan y newyddiadurwyr Paula a Jeremy Dear (BBC) a Ysgol y Cwm, Trevelin | Dydd Mawrth<br><br>Mawrth 17eg | 8 o ddisgyblion | Cawsant amser i arsylwi a ffilmio gweithgaredd au yn yr ysgol. | |
| **Mawrth - Ebrill** | Cyflwyniad gan Frank Holloway( cyn athro hanes yma yn gwirfoddoli) yn y Ganolfan Esquel.<br><br>Cyflwyniad diddorol arall yn y Ffair Amaethyddol Trevelin.<br><br>Cyflwyniad yn y Ganolfan Esquel. | Dydd Sadwrn<br><br>Mawrth 28ain<br><br>Dydd Sadwrn<br><br>Ebrill 4ydd<br><br>Dydd Sadwrn<br><br>Ebrill 11eg | 25<br><br>25 | Cyflwyniad –<br><br>Hanes Cymru hyd at 1800. Gwlad fechan hanes hir. Protest a Pharchusrwyd d<br><br>Bu cyflwyniadau wythnosol ganddo am fis yn y Salon Central Trevelin yn ystod ei ymweliad.<br><br>Cyflwyniad –<br><br>Hanes Cymru yn yr Ugeinfed | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ganrif. Dirwasgiad a Diwygiad. Cymru gyfoes.<br><br>Treuliodd gyfnodau mewn gwersi gyda thiwtoriaid lleol mewn ysgolion, colegau ac mewn grwpiau siarad oedolion.<br><br>Cyflwyniadau diddorol iawn. | |
| **Ebrill** | Taith Gerdded Mynydd Llwyd a The Cymreig | Dydd Sul<br><br>Ebrill 12ed | 75 | Gweithgaredd i godi arian ar gyfer dau o Ieuenctid Esquel a fu'n ffodus i gael eu dewis fel rhan o gast y Sioe Gerdd 'Mimosa' Theatr Clwyd/ Urdd Gobaith Cymru. Bu Ryan Lloyd a Michael Winter yng Nghymru yn cymryd rhan cyn perfformio yn y Wladfa. | |
| | Cynhaliwyd dwy oedfa i ddiolch am y Cynhaeaf a'r Pasg.<br><br>Yr oedfa foreol yng Nghapel Bethel y Cwm | Dydd Sul<br><br>Ebrill19e g | 18<br><br>15 | Dyma'r tro cyntaf i'r | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ac yna cafwyd gwasanaeth a chymun yng Nghapel Seion Esquel.<br><br>Isaias Grandis yn gwasanaethu. | | | aelodau gael cymundeb ers cyfnod Hazel Charles Evans<br><br>Lluniaeth ysgafn yn y Ganolfan ar ol y gwasanaeth | |
| | Noson o Hwyl a Chwis – Quincho Gorsedd y Cwmwl. | Nos Sadwrn<br><br>Ebrill 25ain | 35 | Cawsom noson arbennig. | |
| | Acto yn Ysgol 18 / Carreg Holdich<br><br>Dadorchuddio/Anrhydeddu gwragedd y gymuned leol am eu cyfraniad a'u gwasanaeth i'r fro.<br><br>Cyngerdd Agoriadol yr Eisteddfod yn Clwb Fontana Trevelin, | Dydd Iau<br><br>Ebrill 30ain | | Dawnswyr Cwm Hyfryd o dan hyfforddiant Jessica Jones yn cymryd rhan yn yr Acto.<br><br>Nifer o artistiaid lleol yn canu / corau / dawnswyr. | |
| **Mai** | Rhagbrofion ac Eisteddfod Trevelin.<br><br>Gweithdy Telyn Esyllt Nest Roberts<br><br>Eisteddfod Trevelin | Dydd Gwener Mai 1af<br><br>Dydd Sadwrn Mai 2il | | Diwrnod hwylus iawn.<br><br>Trefnais weithgareddau ar Stondin Menter Patagonia i'r Plant drwy gydol yr Eisteddfod. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel yCwm<br><br>Cyngerdd yn y Salon Central | Bore Sul Mai 3ydd<br><br>Nos Sul Mai 3ydd | Capel llawn | Arddangosfa o lythyron a chardiau post o Gymru | |
| | | Noson i groesawu Jeremy Knobel adre o Goleg Llanymddyfri. Enillodd Ysgoloriaeth Mr Tom Gravell. | Nos Wener Mai 8fed | 35 | Cyflwyniad Jere yn cynnwys lluniau o'i daith. Eitemau amrywiol gan Meirion Griffiths, Michael Winter a Thwmpath Dawns o dan arweiniad Iwan Madog. Lluniaeth ysgafn. | |
| | | Cyngerdd Elin Fflur yn Centro Cultura Melipal Esquel.<br><br>Bu Elin Ffflur gyda chriw 'Heno' dan arweiniad medrus y cyfarwyddwr Emyr Penlan yn ffilmio a chyfweld yn ystod yr wythnos. | Nos Wener<br><br>Mai 15ed | Theatr Orlawn | Trefnwyd y Noson arbennig yma gan Gymdeithas Gymraeg Esquel. Adloniant lleol yn ogystal. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Oedfa yng nghapel Seion Esquel. Gwasanaeth yng nghofal Isaias Grandis | Dydd Sul Mai 17eg | 20 | Croesawyd gwirfoddolwyr o Gymru sef Gwenno Healy a Dylan Jenkins. Cawsom unawd hyfryd gan Gwenno.<br><br>Bu'r ddau yn cynorthwyo mewn gwersi yn gyffredinol yn ystod eu ymweliad yma. | |
| Mehefin | Gwersi Telyn gan Esyllt Nest Roberts yn Ysgol Gymraeg yr Andes Trevelin.<br><br>Noson Fondue yn y Quincho Gorsedd y Cwmwl | Dydd Sadwrn Mehefin 13<br><br>Nos Sadwrn Mehefin 13 | Gwersi i unigolion a Gweithdy Grwp<br><br>30 | Cyflwyniad a gwers grwp ddiddorol.<br><br>Adloniant difyr yn llawn hwyl ar y noson. | |
| | Oedfa foreol yng Nghapel Bethel y Cwm o dan arweiniad Heledd ac Andras Iago. | Dydd Sul Mehefin 14eg | 18 | Roedd yn brofiad da i bawb gael cymdeithasu gyda'r ddau ymwelydd yn ystod y penwythnos. | |
| **Mehefin 29-Gorffennaf 9fed**<br><br>**Myfyrwyr Santand** | Oedfa yng Nghapel Bethel y Cwm o dan arweiniad Isabel a Steffan. | Dydd Sul Gorffennaf 4ydd<br><br>Nos | 20 | Bu Isabel Thomas a Steffan Bryn yn weithgar iawn ac yn cydweithio yn Ysgol 24 Luis | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **er**<br><br>**Isabel Thomas /**<br><br>**Steffan Bryn** | Twmpath Dawns yng nghwmni Jessica Jones, Dawnswyr Trevelin a dau fyfyriwr Ysgoloriaeth Santander o Brifysgol Caerdydd. | Fawrth<br><br>Gorffenn af 7fed | | Jorge Fontana Esquel,gyda'r dosbarthiadau Cymraeg yn Esquel a Threvelin.<br><br>Roedd yn bleser cael cefnogaeth y myfyrwyr. Rhoddodd hyn gyfle i mi dreulio cyfnod yn cydweithio ac arsylwi yn Ysgol Gymraeg Gaiman. | |
| | **Gorffenn af** | Dathlu Canmlwyddiant a Hanner y Wladfa yn yr Andes<br><br>Seremoni Agoriadol Trevelin<br><br>Seremoni Dadorchuddio Carreg Gefeillio Trevelin ac Aberteifi.<br><br>Ymweliad prifweinidog Cymru Carwyn Jones yng nghwmni cynrychiolwyr o'r Cyngor Prydeinig yn Buenos Aires a Chynrychiolwyr | Dydd Mawrth<br><br>Gorffenn af 28ain.<br><br>Dydd Mercher<br><br>Gorffenn af 29ain | Tyrfa luosog yn mynychu'r holl achlysuron | Cefais y fraint o gario Baner y Ddraig Goch yn y Seremoni wrth gofeb y Mimosa yn Nhrevelin a mwynhau gwylio'r dawnswyr lleiaf yn diddanu o dan arweiniad Jessica Jones cyn mynd ymlaen i roi cyfarchion ar ran Tre Aberteifi yn Seremoni dadorchuddio'r garreg gefeillio o flaen y Felin fawr. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwahanol Fudiadau a Chymdeithasau Cymraeg yn y Felin yn Nhrevelin.<br><br>Cyngerdd Gwyl y Glaniad yn y Salon Central Trevelin ac yna Swper Gwyl y Glaniad yn Esquel.<br><br>Cyngerdd yn y Gampfa Esquel. | Dydd Gwener<br><br>Gorffennaf 31ain<br><br>Nos Sadwrn Awst 1 af | | Cyflwyniadau lluniaeth ysgafn a chymdeithasu a gwylio'r dawnswyr.<br><br>Roedd yn braf croesawu Mr Aled Eurig Cadeirydd y Cyngor Prydeinig, Mr Gareth Kiff Monitor Academaidd a Chadeirydd y Cynllun ym Mhatagonia a Suzanne Hay Cerddorfa'r BBC a oedd yma'n trefnu taith Catrin Finch. Roedd adloniant diddorol ar y noson. | |
| | **Awst** | Sioe 'Calon Arloesol' Cwmni Theatr Proffesinol o Buenos Aires<br><br>Oedfa a Chymun yng | Nos Wener Awst 7fed | Campfa llawn<br><br>15 | Roedd yn hyfryd gweld dwy o ddisgyblion ifanc Talaith Chubut yn rhannu llwyfan gyda'r Cast proffesiynol yma. Helen Green a Maite Arce. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nghapel Seion Esquel, gwasanaethwyd gan Isais Grandis. | Nos Sul Awst 16eg | | Adloniant lleol yn ogystal. | |
| | | Gweithdy Drama dan arweiniad Tim Baker cyfarwyddwy y sioe gerddorol ‘ Mimosa’ yn y Ganolfan Esquel | Dydd Llun Awst 17eg. | 40 | Cyfle i gymdeithasu a chael paned a lluniaeth ysgafn yn y Ganolfan i ddilyn. | |
| | | Tri aelod o Ieuenctid Cangen Clwyd yn cael cyfweliad ar Radio Naciional Esquel. | Dydd Llun Awst 17eg. | | Roedd y cast o actorion proffesiynol a ieuenctid yr Urdd yn cymdeithasu’n dda gyda’r bobl lleol. Sesiwn holi ac ateb a lluniaeth ysgafn. | |
| | | Perfformiad ‘Mimosa’ Auditorio Municipal de Esquel. | Nos Lun Awst 17eg | Theatr a Neuadd yn orlawn | Hysbysebu’r Sioe a rhoi braslun am yr hanes ac am eu taith. | |
| | | Perfformiad Salon Central Trevelin. | Nos Fercher Awst 19eg. | | Perfformiad gwefreiddiol bythgofiadwy a dau o’n harwyr lleol sef Ryan Lloyd a Michael Winter wedi elwa’n fawr o’r profiad yma nid yn | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Noson Gymdeithasol yn y Ganolfan Esquel i ffarwelio.<br><br>Gwirfoddolwraig – Suzanne Condon  sy'n diwtor  Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.<br><br>Cyflwyniadau ar y Fari Lwyd yn y Ganolfan Esquel ac yn y Salon Central Trevelin. | Nos Iau Awst 20fed<br><br>Dydd Mawrth Awst 25ain tan Awst 30ain<br><br>Dydd Sadwrn Awst 29ain a nos Fawrth 1af o Fedi. | | unig wrth berfformio ond yn gymdeithasol hefyd.<br><br>Yn ogystal cawsant groeso gan deuluoedd Ryan a Michael ar eu haelwydydd.<br><br>Cyfle i gyfarfod a chymdeithasu yn Esquel a Threvelin. Blasu Asado bendigedig yn La Barra.<br><br>Gwledd ac adloniant cyn ffarwelio a chast anhygoel. Bydd y perfformiadau yma yn aros yn ein cof am byth.<br><br>Bu Suzanne yn ymweld a dosbarthiadau amrywiol yn ystod yr wythnos a | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chymryd at ddysgu'r plant oed cynradd yn Ysgol 24 Luis Jorge Fontana. | |
| Medi – Hydref-Tachwedd | Ymweliad gan Dafydd Tudur a Berian Rhys Elias o'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.<br><br>Ymweliad gan Theatr Lighthouse Abertawe.<br><br>Noson Gymdeithasol yn y Ganolfan gan Llinos, Adrian a Sonia( Theatr Lighthouse) ac adloniant lleol.<br><br>Diwrnod Shwmae! / Sumae! | Medi 22ain – Medi 25ain<br><br>Hydref 13eg- Hydref 17eg<br><br>Hydref 16eg<br><br>Hydref | Tua 10 ym mhob sesiwn<br><br>60 | Dwy sesiwn yn y Ganolfan Esquel a dwy Sesiwn Yn y Felin, Trevelin. Cyfle i ddod a deunydd i sganio a recordio hanes teuluoedd.<br><br>Paratowyd amserlen ar eu cyfer gan Iwan Madog ac felly cawsant gyfle i fynychu Ysgolion lleol yn Esquel a Threvelin yn ogystal cynhaliwyd gweithdy telyn. Tra'n ymweld ac Ysgol y Cwm roedd yn braf gweld pob un o'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfle i chwarae. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Taith Flynyddol Yr Urdd 2015.<br><br>Gweithgareddau Cymdeithasol – Twmpath gyda Dawnswyr y Cwm a'r arddegau.<br><br>Ymwelad a Ysgol 25 Villa Futalufquen yn y Parc Cenedlaethol lle cawsant gyfle i wrando ar gyflwyniad am yr ysgol,chwarae pel droed sef gweithgaredd rhyngwladol blynyddol wwwfutbolrural.org.ar Plannu coed yn y goedwig.<br><br>Ymweld ac Ysgolion 24 Esquel, y Ganolfan Esquel, Taith o gwmpas Esquel.<br><br>Ymweld a chartre'r Henoed Yn Nhrevelin, Ysgol y Cwm, Cartrefi unigolion,<br><br>Asado i groesawu Catrin Finch a Ieuenctid Yr Urdd yn Nhrevelin.<br><br>Rafftio ar afon Corcovado. | 15ed<br><br>Hydref 22 ain tan 26ain<br><br>Nos Iau 22ain<br><br>Dydd Gwener 23ain<br><br>Dydd Gwener 23ain Prynhawn<br><br>Nos Wener 23ain<br><br>Dydd Sadwrn 24ain<br><br>Nos | Criw'r Urdd<br><br>3 Arweinydd<br><br>7 bachgen<br><br>18 merch<br><br>130<br><br>Orlawn | Diolch i Iwan Madog am baratoi deunydd a chreu clipiau diddorol ar y gweplyfr.<br><br>Braf gweld pawb yn cymdeithasu'n rhwydd.<br><br>Canu'r anthemau Cenedlaethol yn yr awyr agored.<br><br>Bu'n rhaid rhannu yn 2 grwp yn y prynhawn ( 14 yn Esquel a 14 yn Nhrevelin)<br><br>Noson hyfryd yn cynnwys adloniant lleol. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyngerdd Catrin Finch yn Centro Cultural Melipal Esquel. | Sadwrn 24ain | | Roedd yn wych clywed 2 o ddysgwyr Ifanc Esquel yn cynnal sgwrs yn Gymraeg. | |
| | Asado yn Quincho 'Gorsedd Y Cwmwl' | Dydd Sul 25ain | 50 | Eitemau amrywiol o safon uchel gan yr Ieuenctid. | |
| | Oedfa yng Nghapel Bethel Trevelin dan arweiniad yr Urdd | Dydd Llun 26ain<br>Bore | | Cerdded draw i'r fferm a chael y croeso arferol ar fferm Charly a Margaritta Green. Asado bendigedig a chyfle i farchogaeth, cerdded a mwynhau'r olygfa cyn yr oedfa am 6 o'r gloch yng Nghapel Bethel y Cwm. | |
| | Taith gerdded i weld Y Felin a Bedd Malacara / Ty Taid | Prynhawn | | | |
| | Ysgol y Cwm – Gweithgareddau yn yr ysgol a the ffarwelio, | | 50 | | |
| | Ymadael am y Dyffryn ar y bws nos. | | Capel yn llawn. | | |
| | Cyrhaeddodd llawer o ymwelwyr o Gymru yr Andes. Mae'n amhosibl enwi pawb. | Dydd Sul Tachwedd 1af | | Criw rhagorol gweithgar a brwdfrydig iawn. Roedd yn bleser cael eu cwmni. | |
| | Asado yng Nghwmni y Parchedig Eirian Wyn a'i gyfeillion (30) o Gymru. | Nos Sul<br>Capel Seion | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Esquel | | | |
| | Oedfa fendithiol yng Nghapel Seion Esquel. Roedd y gwasanaeth yng nghofal y Parchedig Eirian Wyn Lewis, cafodd gymorth y Parchedigion Gareth Morris a Tom Dafis. | 5ed – 8fed Tachwedd | Roedd y lle yn llawn. | Cyflwynwyd 900 doler i Ysgol Y Cwm ar ran Pwyllgor Gefeillio Aberteifi-Trevelin. | |
| | Eisteddfod y Wladfa | Tachwedd 5ed | Capel yn llawn. | | |
| | Seremoni'r Orsedd a The yng Nghapel Bethel Gaiman. | Bore Sul 8fed | 60 | Te a lluniaeth ysgafn yn dilyn yr oedfa. | |
| | Cymanfa Ganu yn Nhrelew. | Nos Sul 8fed | | Cafwyd amser arbennig a chystadlu o safon uchel. Nifer helaeth o ymwelwyr yn yr holl weithgareddau. | |
| | Gwasanaeth yng nghapel Bethel Gaiman yng nghofal y Parchedig Eirian Wyn Lewis, cafodd gymorth y Parchedigion Gareth Morris a Tom Dafis. | Tachwedd 11 eg | | Canu gwefreiddiol. y prif arweinydd oedd Mr Alun Guy. Neges fendithiol gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis. | |
| | Noson Gymdeithasol yn y Ganolfan Esquel i groesawu Hazel Charles Evans, Morfudd Slaymaker a ffrindiau eraill o Gymru. | | 12 | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Tachwedd 10fed | 40 | Dangosodd cyn fyfyrwyr o'r Andes eu gwerthfawrogiad i Hazel a Morfudd trwy gyfeirio at y croeso roeddent wedi derbyn tra'n astudio yng Nghymru. Roedd Margaritta , Isaias a Jessica Jones yn ddiolchgar iawn iddynt. Cyfeiriodd Hazel at ei dymuniad i gyflwyno gwobr dysgwr y flwyddyn am y pum mlynedd nesaf.Gweler mwy o fanylion yn yr atodiad. | |
| | | Tachwedd 11eg | | | |
| | Grwplau Sgwrsio gyda Archdderwydd Cymru.Canolfan Esquel | Tachwedd 22 ain | | | |
| | Noson lawnsio Llyfr 'The Freeman Family Travel Journals' a gyfeithiwyd i'r Saesneg gan Mary Green. | Tachwedd 25ain<br>Tachwedd 24ain | | | |
| | Oedfa yng nghofal Lois Dafydd yng nghapel Bethel Trevelin. | Tahwedd 25ain. | | | |
| | Dathlu Pen blwydd Trevelin<br>Gweithgareddau amrywiol yn cynnwys y daith gerdded i fyny i'r ' Graig Goch'. | | Mae'r gweithgaredd au sy'n dilyn heb ddigwydd eto. | Bu'n gyfle da i gyfnewid syniadau a sgwrsi'n gyffredinol, Lluniaeth ysgafn. | |
| | Seremoni agoriadol, cyflwyno/ cydnabod a | Tachwedd 27ain. | | Cynhaliwyd y noson Yn | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwerthfawrogi. | | | Nhrevelin. | |
| | Cyflwynwyd yr holl swyddogion. Ymysg y nifer roedd Maer tre Aderteifi y Cyng John Adams Lewis. | Tachwedd 29ain. | | Hyfryd croesau ymwelwyr lu o Gymru i'n plith. | |
| | Cyflwynodd Meirion Jones lun o waith ei dad yr artist enwog Aneurin Jones fel rhodd i'w arddangos yn y Felin Trevelin. | Tachwedd 30ain. | | | |
| | Acto yn y Salon Central | | | Codi arian eleni tuag at Ysbyty Felindre. | |
| | Gwasanaeth yng Nghapel Seion Esquel.Hazel Charles Evans yn gwasanaethu. | | | Diwrnod arbennig gan fy mod yn cael yr anrhydedd o gario baner y Ddraig Goch. Roedd yn hyfryd gweld torf anrhydeddus yn gorymdeithio trwy'r dref. | |
| | Cyngerdd y dosbarthiadau Cymraeg yn y Ganolfan Esquel | | | Adloniant lleol gan gynnwys disgyblion Ysgol Y Cwm. | |
| | | | | Cinio twrci i ddilyn y gwasanaeth. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Adloniant amrywiol yn llawn hwyl cyn y Nadolig. | |
| Rhagfyr | Cyngerdd y dosbarthiadau Cymraeg yn Nhrevelin.<br><br>Cyngerdd Ysgol y Cwm. | Rhagfyr 4ydd<br><br>Rhagfyr 12fed | | | |

Yn ychwanegol cefais amser diddorol a llawer o foddhad yn cyflawni’r canlynol.

- Cyhoeddi tri rhifyn o ‘Llais yr Andes’
- Cydweithio’n agos gyda holl staff Ysgol y Cwm Trevelin a sicrhau fod y Gymraeg yn cael lle amlwg ar y Cwricwlwm trwy’r Cynllunio a Threfniadaeth Dosbarth.
- Cydweithio’n agos gyda’r athrawon yn nosbarthiadau Cymraeg yn Esquel a Threvelin.
- Cydnabod fod prifathrawes,staff a disgyblion Ysgol 24 Luis Jorge Fontana wedi dangos diddordeb aruthrol yn y sesiynau a gafwyd eleni. Cyfanswm o tua 72 disgybl. Hyfryd cyhoeddi fod un ohonynt yn derbyn gwersi Cymraeg am ddim yn y Ganolfan y flwyddyn nesaf. Diolch i Hazel Charles Evans am ei charedigrwydd i gydnadod tlws Disgybl y Flwyddyn ac un disgybl sydd wedi gwneud cynnydd arbennig yn yr holl ysgolion yn ogystal a rhodd cydnabyddiedig o 50 doler am y bum mlynedd nesaf.
- Treulio cyfnod o bedwar diwrnod yn Ysgol Gymraeg Gaiman mis Gorffennaf yn cydweithio gyda’r staff ac yn arsylwi gwersi. Roedd yn hyfryd ymweld unwaith eto a Ysgol Yr Hendre Trelew ac Ysgol Gymraeg Gaiman adeg Eisteddfod Y Wladfa Mis Tachwedd.

- Cyd-lynu’n agos gyda Nerys Edwards sef gweinyddwr a chyswllt ‘Clwyd Theatr Cymru’ ar gyfer y paratoadau ac yn ystod perfformiadau ‘Mimosa’.

- Cyd- lynu taith Urdd Patagonia 2015 a fu’n llwyddiannus iawn fel arfer. Bu’n bleser cydweithio gyda’r holl diwtoriaid lleol i sicrhau fod y trefniadau wedi mynd yn hwylus iawn. Hyderaf fod yr Ieuenctid wedi mwynhau o dan arweiniad medus Mared Jones, Leah Dafydd a Sion Lewis. .

- Ceisio annog myfyrwyr a thiwtoriaid Esquel a Threvelin i fanteisio ar bob cyfle posib, boed yn sefyll arholiad, ysgrifennu darn i ‘Llais yr Andes’, ymgeisio am ysgoloriaeth, gwneud cais i fod yn rhan o brosiect cystadlu mewn Eisteddfodau, anfon erthyglau at gylchgronau a phapurau newydd, llwyddiant mewn arholidau a bod Ryan Lloyd wedi ennill ysgoloriaeth Tom Gravel i Goleg Llanymddyfri yn 2016.

- Uwchlwytho lluniau i roi ar dudalen gweplyfr Menter Patagonia a rhoi pob darn o newyddion arni hefyd. Anfon newyddion yn fisol at Ceris Gruffudd, ysgrifennydd Cymdeithas Cymru-Ariannin. Danfon erthygl yn fisol i bapur bro cylch y Frenni sef ‘Clebran’.



## Adroddiad Y Cydlynydd Dysgu

Wrth lunio'r adroddiad hon rhaid nodi yn syth bod eleni wedi bod yn flwyddyn annodweddiadol! Bu cryn drafod cyn y flwyddyn o ran y dathliadau er mwyn cofio cyrhaeddiad y Cymry cyntaf i Batagonia cant a haner o flynyddoedd yn ôl ond ni chredaf fod neb wedi disgwyl blwyddyn mor lawn o weithgaredd a gwaith. Y mae wedi bod mor braf croesawu cymaint o bobl i'r cymunedau yma a gobeithio wir bod pob un sydd wedi bod yma wedi teimlo'r wefr o siarad ei iaith eu hunan mor bell oddi wrth fan ei geni. Buodd y Canmlwyddiant mor bwysig i atgyfodiad yr iaith a'r diwylliant yn y Wladfa a mawr obeithiwn y bydd y Canmlwyddiant a Hanner wedi cael yr un effaith ar bobl sydd wedi ymweld â ni.

Y mae hyn wedi golygu bod llawer mwy o bwyslais wedi bod ar rai agweddau o waith y Cydlynydd Dysgu yn lle'r pethau arferol fel arsylwi dosbarthiadau, paratoi deunyddiau a chynnig sesiynau hyfforddi. Y mae rhai prosiectau wedi cael llawer o sylw eleni yn y gobaith y byddant yn dwyn ffrwyth yn y dyfodol. Er hyn rwyf wedi bod mewn cysylltiad electroneg gyda Luned Gonzalez a'r tiwtoriaid yn y Dyffryn ac yn yr Andes yn gyson a gyda'r tiwtoriaid lleol lle bu'n ymarferol bosib. Ystyriaf mai un o agweddau pwysicaf fy ngwaith ydy bod yn berson cyswllt i weithwyr o Gymru ac i'r tiwtoriaid lleol yn yr Ariannin hefyd ac mae'n bwysig bod y swyddogion o Gymru yn gwybod bod ganddynt fentor ar yr un cyfandir. Deallaf fod prosiectau eraill sydd yn anfon pobl o Brydain draw i wledydd eraill i weithio am gyfnod yn cael problemau ar brydiau gan nad oes cyswllt lleol sydd yn deall y sefyllfa a dyna un peth i fod yn falch ohono yma yn y Wladfa.

Er ei bod yn amhosib rhestru pob ymweliad, digwyddiad, cyfarfod a datblygiad yma af ati i geisio ymhelaethu ar rai o'r agweddau sydd wedi bod yn bwysig i'r Cynllun eleni.

**Chwefror 2015**

- Cwrdd gyda rhai o'r myfyrwyr oedd yn bwriadu sefyll arholiad Sylfaen ym mis Mehefin: gan bod rhai o'r ymgeiswyr yn astudio yng Ngogledd yr Ariannin ac adref ar wyliau yn ystod yr haf, aethon ni ati gyda chymorth eu hathrawes wirfoddol Grisel Roberts, i gynnal sesiynau i adolygu cwrs Wlpan ac i baratoi ar gyfer yr arholiad. Hefyd mynychodd fechgyn ifanc Esquel ac oedolion sydd yn ystyried sefyll arholiad yn y dyfodol.
- Cynnal dosbarthiadau dros Skype gydag ymgeiswyr Sylfaen sydd yn byw yn Mendoza (gogledd yr Ariannin) a Gaiman. Gan bod yn wyliau haf yr oedd mwy o amser gan y bobl astudio ac felly manteision ni ar yr amser ac aethom ati i gynnal dosbarthiadau er i ni barhau tan yr arholiadau ym mis Mehefin. Hoffwn adeiladu at hyn yn 2016 ac ymestyn ein darpariaeth yn bellach trwy ddefnyddio technoleg.
- Gweithio ar PEI Ysgol y Cwm: pan ddechreuodd y Cynllun ym 1996 nid oedd neb yn meddwl am gynnig addysg ddwyieithog yn y Wladfa heb sôn am mewn pentref bach yn yr Andes ond yn sgil y Cynllun Dysgu Cymraeg tyfodd hunanhyder o fewn y cymunedau Cymreig a daeth yr ysgol gyntaf ddwyieithog i fodolaeth yn Nhrelew ac

erbyn hyn mae ysgol ddwyieithog arall yn Gaiman. Ysgol y Cwm fydd y drydedd ond er mwyn cael cydnabyddiaeth gan y Llywodraeth rhaid dangos meddylfryd a nod a methodoleg yr ysgol a buom fel pwyllgor didactig yr ysgol yn gweithio ar y papurau hyn yn ystod y gwyliau ysgol. (Gw. Darn am Ysgol y Cwm).

- Er nad yn uniongyrchol yn rhan o fy swydd ond yn rhan o ddathliadau'r Canmlwyddiant a Hanner bues i i droed twr copa Gorsedd y Cwmwl, y mynydd sydd yn edrych i lawr ar dref Trevelin, taith fynydda go heriol. Mae darn o lechen ar ben y mynydd rwan yn gof am y fenter.
- Croesawu Dafydd Wigley un o'r ychydig ymwelwyr oedd yma i ddathlu'r Canmlwyddiant ac sydd wedi dychwelyd. Yr oedd ei wraig, Elinor Bennett wedi ymgyrchu yng Nghymru er mwyn codi arian i brynu telyn i'w rhoi i'r Wladfa a gan bod digon o arian wedi dod i law i brynu dwy, daeth hi a Gwenan Gibbard ag un faint llawn ac un ymarfer i aros yn yr Andes ac yr un peth i'r Dyffryn.
- Gwyl Geltaidd Trevelin i ddathlu Dydd Gwyl Dewi.

**Mawrth 2015**

- Teithio i'r Dyffryn i groesawu swyddogion y Dyffryn, Ann Marie Lewis a Tito a'r plant. Treulio amser gyda nhw yn edrych ar y gwaith a'r amserlenni. Mynychu digwyddiadau dechrau tymor y Dyffryn a phwyllgor dosbarthiadau.
- Croesawu gwirfoddolwr Frank Holloway. Yr oedd Frank wedi ymweld â'r Wladfa fel twrist ac fel athro wedi ymddeol wedi teimlo y byddai un diwrnod yn gallu cyfrannu at y gwaith ac felly daeth gyda chyflwyniadau arbennig ar hanes Cymru a buodd yn rhannu'r rheiny gyda'r gymdeithas Gymraeg ond hefyd gydag ysgolion lleol a buodd yn brofiad diddorol iawn ar sawl ochr. Treuliodd amser yn yr Andes ac yn y Dyffryn.
- Dysgu dau ddosbarth yn Esquel sef Uwch a Meistroli hyd heddiw. Y mae llwyddiant y Cynllun wedi golygu bod tiwtoriaid hyderus yn dysgu pobl lleol ac yn eu paratoi ar gyfer arholiadau ond mae diffyg hyder pan ddaw at y lefelau uwch ac felly oherwydd diddordeb criw yn Esquel a diffyg oriau gan Eluned Jones cytunais i ddysgu'r ddau grŵp yn enwedig gan bod dau ohonynt yn ystyried sefyll arholiad Uwch yn 2016.

**Ebrill 2015**

- Ymweliad criw Joio i ffilmio ar gyfer y digwyddiad theatrig {150} a'r ffilm *Galesa* – cynorthwyo gyda'r trefniadau gyda phobl leol a sefydliadau lleol.
- Cymryd rhan mewn taith gerdded oedd i fod i fynd o Borth Madryn i Rawson yn dilyn ôl troed y Cymry cyntaf ond oherwydd tywydd drwg bydd rhaid cwtogi ar y daith gan gerdded rhai rhannau yn unig a pheidio â gwersylla ar y Paith.
- Eisteddfod Trevelin – arwain sesiwn prynhawn Sadwrn a bod ar gael i gyfieithu ar y pryd.

**Mai 2015**

- Croesawu Elin Fflur i’r Wladfa a chynorthwyo gyda’r trefniadau yn yr Andes.
- Arwain sesiynau paratoi wythnosol ar gyfer yr arholiadau Mynediad a Sylfaen i ddisgyblion yr Andes.

**Mehefin 2015**

- Arholi lefel Mynediad a Canolradd
- Rhoi sgwrs yn Ffair Lyfrau  Gaiman.
- Arholi lefel Uwch a Sylfaen.  Gan bod yr arholiadau wedi cael eu rhannu rhwng yr Andes a’r Dyffryn oherwydd ble oedd y mwyafrif o ymgeiswyr bues yn teithio cryn dipyn ym mis Mehefin!
- Derbyn Isabel Thomas a Steffan Bryn i’r Andes, y ddau wedi ennill ysgoloriaeth Santander a gynigir gan Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd i ddod allan i’r Wladfa i wirfoddoli.  Cynllunio rhaglen ar eu cyfer.  Mentora nhw yn ystod eu harhosiad.



**Gorffennaf 2015**

- Croesawu'r BBC a ddaeth i ffilmio ar gyfer rhaglenni newyddion yn son am y Canmlwyddiant a Hanner.
- Gwyl y Glaniad. Teithio i Borth Madryn i fod yn rhan o'r dathliadau.
- Croesawu Carwyn Jones i'r Andes.
- Croesawu Gareth Kiff i'r Andes ar ei ymweliad fel Cyfarwyddwr Academaidd a Cadeirydd Cynllun yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia.
- Croesawu Aled Eirug ( Cadeirydd British Council Cymru ), Mary Godward (British Council yr Ariannin) a Suzanne Hay (Cerddorfa'r BBC). Treulio amser gyda Suzanne yn gweithio ar gynllun am ymweliad Catrin Finch i'r Andes.



**Awst 2015**

- Croesawu criw *Mimosa* y sioe gerdd a gynlluniwyd i ddod â phobl ifanc a Chymru at ei gilydd wrth adrodd hanes y Mimosa. Teithio gyda nhw a cheisio cynorthwyo pan oedd angen.
- Croesawu Suzanne Condon o Brifysgol Caerdydd fel gwirfoddolwraig.

**Medi 2015**

- Croesawu Dafydd Tudur a Berian Elis o brosiect Casgliad y Werin.

- Siarad am yr iaith Gymraeg a'r hanes a rhoi sesiwn Blasu i athrawon a darpar-athrawon yng nghynhadledd flynyddol athrawon Saesneg yr Ariannin (FAAPI). Cynhaliwyd y gynhadledd eleni yng Nghordoba a buodd yn gyfle i rwydweithio a dangos bodolaeth y Cynllun Dysgu Cymraeg. Buodd Ana Chiabrando yn cyfrannu at y sesiynau hefyd gan ei bod hi wedi ennill ysgoloriaeth i fynychu'r gynhadledd ym mlwyddyn y dathliadau ar gyfer y Canmlwyddiant a Hanner.

**Hydref 2015**

- Croesawu criw Lighthouse Theatre i'r Andes.
- Cynllunio ar gyfer ymweliad gan Catrin Finch ar y cyd gyda British Council yr Ariannin a Cerddorfa'r BBC Cymru a'i chroesawu i'r ardal. Cyfieithu ar y pryd yn y gweithdai a'r cyngherddau. Cydlynu ei rhaglen waith tra yma.
- Cymryd rhan yn y gweithdai llinynnol yn y Dyffryn a gynigir gan gerddorfa'r BBC a chyfieithu ar y pryd lle bo angen.
- Croesawu criw yr Urdd ar eu hymweliad blynyddol.

**Tachwedd 2015**

- Croesawu Rosemary Butler Llywydd Cynulliad Cymru i'r Andes ar ymweliad byr.
- Eisteddfod y Wladfa – cystadlu, mynychu a chefnogi.
- Croesawu Sian Thomas i'r Andes fel gwirfoddolwraig.
- Croesawu Steffan Phillips i'r Andes fel gwirfoddolwr.
- Digwyddiadau Pen-blwydd Trevelin.
- Digwyddiadau diwedd tymor yn y Dyffryn a'r Andes.

Yn ogystal â'r pethau arbennig uchod rwyf hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r canlynol fel pethau sydd fel arfer yn digwydd yn ystod blwyddyn ysgol yn yr Ariannin:

- Mynychu pwyllgorau lleol o'r canolfannau gan gynnwys rhai y Dyffryn lle bo'n bosib.
- Arwain grwpiau sydd yn ymdrin â materion dysgu iaith – cynllunio, creu adnoddau ayyb.
- Cynnig cymorth ar faterion dysgu lle bo galw.
- Gwneud gwaith gweinyddol ysgoloriaethau, gwirfoddoli, arholiadau ayyb. eleni bu dau ymgeisydd ar y lefel Uwch sydd yn golygu tipyn o waith cefnogi wrth iddynt baratoi'r gwaith ffolio a thapio. Bues yn gwneud hyn ar ymweliadau i'r Dyffryn a dros y We.
- Gweithio fel Cadeirydd Pwyllgor Ysgol y Cwm ac Is-gadeirydd Cymdeithas Gymraeg Trevelin.
- Trefnu gwaith fel Cydlynydd Iaith i'r gwaith yn yr ysgolion meithrin.
- Bod yn bresennol mewn pob digwyddiad Cymraeg ac Eisteddfod fel bo'n bosib.
- Creu a meithrin perthynas gweithio cadarnhaol gyda'r tiwtoriaid lleol a pobl sydd yn gysylltiedig â'r Project yn Nhalaith Chubut.

## ASTUDIAETHAU ACHOS

### Ysgol Gymraeg Yr Andes Esquel

**Marina** ydw i. Dw i´n gweithio yn Ysgol Gymraeg Yr Andes Esquel ers tua deg mlynedd. Athrawes Ysgol Feithrin dw i.

Eleni dw i'n gweithio gyda'r athrawes o Gymru Eluned Jones. Mae'n gyfle arbennig i'r ddwy ohonom gan ein bod yn medru rhannu syniadau a phrofiadau newydd wrth gynllunio ar gyfer y gwersi gyda'n gilydd.

Dyn ni´n dysgu´r plant dwy waith yr wythnos ar ddydd Llun a dydd Mercher, o chwech tan wyth o´r gloch yn y prynhawn.
Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau amrywiol - canu, dysgu´r lliwiau, rhifau, siapiau a pheintio. Ond dw i'n credu mai eu diddordeb mwyaf yw edrych ar lyfrau.

Yn yr ail grŵp, mae'r plant yn hoffi peintio, ysgrifennu, chwarae cardiau ac mae'r merched yma wedi dechrau darllen yn Gymraeg hefyd!. Bendigedig!
Ar hyn o bryd mae'r gwersi Cymraeg yn cael eu cynnal yn yr Ysgol Feithrin Sbaeneg "Mundo Disparatado", achos mae'r gweithwyr yn brysur yn adeiladu yn Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel. Dw i'n edrych ymlaen i weld yr adeilad newydd. Dw i wrth fy modd yn gweithio yn yr Ysgol Feithrin Sbaeneg hefyd oherwydd buodd Victoria yn yr ysgol.



# Jam Llaeth

Bob Nos Lun am 22.00 ar Radio Pocas Nueces (106.5fm)

Rhaglen ddwyieithog ydi Jam Llaeth gyda newyddion, cyfweliadau, straeon, cyfle i ddysgu ychydig o Gymraeg a Sbaeneg, a cherddoriaeth Cymraeg. Ac wrth gwrs llawer o gerddoriaeth yn y Gymraeg. Bydd rhai o'r arddegau sydd yn astudio Cymraeg yn cyfrannu bob wythnos hefyd.

Rydym yn gyffrous iawn bod y rhaglen wedi ailddechrau. Dechreuodd Jam Llaeth yn y flwyddyn 1999 gyda Sioned Hughes, sef yr athrawes oedd yma o Gymru. A dar-lledwyd y rhaglen olaf yn 2004.

Mae'n bosibl darganfod mwy ar ein tudalen ar Facebook, www.facebook.com/jamllaeth

ac mae'r rhaglen yn cael ei uwchlwytho i Soundcloud www.soundcloud.com/jamllaeth bob wythnos er mwyn i bawb allu gwrando arno.

Tan nos Lun nesa',

*Sara Borda Green ac Iwan Madog*



## Gŵyl y Glaniad 2015 – Clare Vaughan

Er i mi fod mewn sawl dathliad ym Mhorth Madryn ers dod i Batagonia roedd eleni yn flwyddyn fawr ac roedd llawer o bethau ymlaen.
Seremoni swyddogol y Llywodraeth
Roedd digon o drafod wedi bod cyn y diwrnod oherwydd bod Arlywydd yr Ariannin yn mynd i ddod a Phrif Weinidog Cymru mewn blwyddyn etholiadau yn y wlad. Roedd rhaid mynd i gynrychioli'r Cymry ond roedd yn brofiad swreal bod mewn campfa yn llawn cefnogwyr y llywodraeth a ni gyda diddordeb diwylliannol yn y canol ond yn sicr roedd y sioe 'Corazon Pionero' neu ' Calon Arloesol' yn Gymraeg yn werth ei gweld gyda'r artistiaid lleol ochr yn ochr ag actorion o Buenos Aires a sioe llawn cyffro.
Cyngerdd Gala yn Nhrelew
Roedd Theatr Sbaenaidd y ddinas dan ei sang er mwyn i'r gynulleidfa glywed artistiaid lleol a El Sur-co Duo o Drevelin, yn adrodd hanes y Wladfa mewn ffordd emosiynol iawn gyda'r diweddglo gwefreiddiol o blant sef dyfodol yr iaith a'r diwylliant yn canu nerth eu calonnau.
28 Gorffennaf 2015



Codi yn gynnar i fynd i weld y seremoni wrth gerflun y Gymraes ac rhyw ffordd yn cael fy ngwahodd i gymryd rhan wrth wthio un o'r bareli i gerflun yr Indian wrth yr ogofau! Yna gweld lluoedd yn aros i groesawu'r rhai oedd yn cynrychioli'r mewnfudwyr cyntaf ddod at y lan mewn cwch rhwyfo. Wedyn y cyfarfod rhwng y ddau ddiwylliant yr Indiaid yn cyfnewid gyda'r Cymry. Areithiau gwleidyddol wedyn gan Martin Buzzi, Pennaeth y Dalaith a Carwyn Jones Prif Weinidog Cymru. Cymanfa Ganu wedyn mewn neuadd chwaraeon ysgol ac a dweud y gwir anodd iawn oedd teimlo yn rhan o rywbeth mewn lle mor fawr.
Rhuthro i Gapel Moriah er mwyn cofio Lewis Jones bu yn sylfaenydd y ddinas sydd rwan yn dwyn ei enw cyn symud ymlaen i Gaiman lle roedd te bendigedig mewn sawl capel yn aros am y sychedig.
Cyngerdd mawreddog i gloi'r diwrnod a champfa Gaiman yn llawn a ninnau yn gorfod sefyll ar y bal-coni er mwyn gweld yr artistiaid lleol.
Teithio yn ôl wedyn ar fys dros nos er mwyn bod yn barod i groesawu Carwyn Jones yn Nhrevelin gan ei fod wedi penderfynu derbyn cynnig y Buzzi i ddefnyddio ei awyren i deithio draw er mwyn ymweld a'r Andes o leiaf. 15



**29 Gorffennaf 2015** Erbyn 14.00 roedd cynrychiolwyr cymdeithasau a mudiadau Cymraeg a Chymreig yn Amgueddfa'r felin yn Nhrevelin er mwyn croesawu Prif Weinidog Cymru ac roedd yn awr fach digon pleserus er yn siomedig nid oedd ganddo amser i ymweld â'r ysgol newydd Ysgol y Cwm.

**31 Gorffennaf 2015**

Cyngerdd yn Nhrevelin, cinio yn Esquel a digon o frysio rhwng un lle a'r llall!
1 Awst..ac mae'r dathlu yn parhau!

Roedd y noson yng nghampfa Esquel yn noson wych gan ddangos talentau'r dref a' r ardal ar eu gorau gyda dawnsio teimladwy, canu yn Sbaeneg ac yn Gymraeg, hen ac ifanc ac yn digwyddiad oedd yn talu teyrnged teilwng i'r ymfudwyr cyntaf.



**Taith Clwyd Theatr Cymru 'Mimosa'**
Er bod nifer o ymwelaidau wedi bod eleni yn dathlu'r Canmlwyddiant a Hanner teimlaf fod rhaid enwi'r daith yma fel enghraifft o rywbeth arbennig sef pobl ifanc Cymru a rhai ffodus o'r Wladfa, Esquel, yn cydweithio i adrodd hanes sydd yn perthyn i'w dwy wlad. Roedd y sioe yn hollol broffesiynol diolch i law grefftus Tim Baker ac roedd yn brofiad emosiynol i bawb: criais i wrth weld Mike Winter a Ryan Lloyd ochr yn ochr a'u cyfoedion yn actio a chanu ar ben y llwyfan ac adrodd yr hanes mewn ffordd mor fyw.
Os ydyn ni am weld y Wladfa yn dathlu ei Dau ganmlwyddiant mae eisiau mwy o brosiectau felly sydd yn cynnwys pobl ifanc o ddwy ochr Mor yr Iwerydd yn dod at ei gilydd mewn diwylliant a chyfeillgarwch i greu cysylltiadau fydd yn parhau i'r dyfodol.



## TAITH CLWYD THEATR CYMRU ‘MIMOSA’

Erthygl i Lais yr Andes gan Dylan Williams

Anodd iawn yw ceisio crynhoi mewn geiriau un o brofiadau gorau fy mywyd fel actor ac yn wir fel person. Anodd yw credu fy mod i mond ychydig wythnosau yn ôl wedi bod ym mhen arall y byd gyda chriw o Gymry a dau o hogia ifanc o Esquel yn gwneud sioe o’r enw ‘Mimosa’ mewn lle o’r enw Patagonia.
Nôl ym mis Chwefror eleni cefais y fraint o gael fy ngwahodd i gyfweliad âr cyfarwyddwr Tim Baker, Clwyd Theatr Cymru ar gyfer prosiect newydd ‘Mimosa’. Roeddwn i’n barod yn llawn cyffro i gael dal i fyny gyda Tim gan ei fod yn gyfarwyddwr a oedd wedi rhoi sawl cyfle i mi yn y gorffennol ac fel cyfarwyddwr a ffrind wedi ymddiried a dangos ei ffydd ynof fel ac-tor wrth i ni gydweithio ar nifer o gynyrchiadau yn y gorffennol ar gyfer y cwmni theatr arbennig hwn yn y Wyddgrug.
Fedrwn i ddim peidio â chyffroi fwyfwy wrth i Tim egluro cefndir ei weledigaeth ar gyfer y prosiect newydd yma. Eglurodd am ei daith hudolus i Batagonia bedair blynedd yn ôl ac am ysbrydoliaeth y darn sef llun o fedd Kate Jones ‘un o’r fintai gyntaf’. Darganfyddodd ei henw ar restr teithwyr y Mimosa yn ogystal â’i gwr William Jones ‘Y Bedol’ a’u dwy ferch fach Mary Ann a Jane. Yna daeth hi’n amlwg iawn fod blynyddoedd o waith ymchwil pellach wedi cael ei wneud i blethu at ei gilydd hanes Kate a William a nifer fawr eraill o’r teithwyr gan gynnwys Rachel ac Aaron Jenkins er mwyn creu byd a hanes y fintai gyntaf a fydda’n

cychwyn gyda'u penderfyniad i adael eu cartrefi yng Nghymru am byth a chychwyn ar daith anhygoel o ddociau Lerpwl ar long cliper fach yn 1865 i le yn Ne America o'r enw Patagonia.

Ddiwedd mis Ebrill dechreuais fy niwrnod cyntaf yn y stafell ymarfer yn Theatr Clwyd a'r ôl cael ar ddeall fy mod am fod â'r fraint o fod yn rhan o'r prosiect hwn. Yn ymuno gyda mi yn yr ystafell ymarfer roedd fy nghyd actorion Hanna Jarman, Tom Blumberg a Bethany Gwyn. Hefyd yn ymuno gyda ni a Tim yn yr ystafell ymarfer roedd Emyr John 'cyfarwyddwr cy-northwyol' un sydd raid diolch yn fawr iddo am ei waith didwyll gyda Tim a ni fel cast drwy'r broses ymarfer. Braf hefyd oedd bod nôl mewn ystafell ymarfer gyda'r cyfansoddwr arbennig Dyfan Jones. Roedd ei ganeuon hudolus gyda geiriau gan Tudur Dylan Jones am brofi unwaith eto i fod yn guriad calon y ddrama hon ac am gyfrannu yn ddirdynnol i sail sgript chwareus o gymhleth Tim Baker.

Ar ôl y broses ymarfer wyllt o brysur yn paratoi'r ddrama yng Nghymraeg a Saesneg mewn cwta tair wythnos a hanner, dyma gychwyn teithio'r ddrama o amgylch Cymru, a chyda pob perfformiad daeth hi'n amlwg iawn, o'r adwaith gwresog ym mhob ardal o Gymru, ein bod yn rhan o brosiect arbennig iawn. Yna yn ôl i'r Wyddgrug i berfformio'r sioe am bedair wyth-nos, gyda pherfformiadau gyda'r hwyr yn ogystal ag ymweliadau cannoedd o blant o bob rhan o ogledd Cymru a ddaeth i weld y sioe fore a phnawn.

Ymlaen wedyn i wersyll Glanllyn i gyfarfod un ar bymtheg o Gymry ifanc a dau Gymro ifanc o Esquel, Mike Winter a Ryan Lloyd. Roedd Clwyd Theatr Cymru 'Theatr ar gyfer Pobl ifanc' wedi creu partneriaeth gyda'r Urdd ar gyfer y rhan nesaf o'r prosiect. Partneriaeth a oedd i amlygu ei hun yn un ffrwythlon dros ben, ac yn dilyn y prosiect hwn, partneriaeth sydd wedi cadarnhau ei hun fel rhwydwaith hollol angenrheidiol yn gelfyddydol ac yn genedlaethol ar gyfer y dyfodol y Gymraeg a'n pobl ifanc ym mhob cwr o'r byd. Felly mawr ein diolch i Glwyd Theatr Cymru a'r Urdd am y weledigaeth hon, ac i Iestyn a Bethan 'swyddogion gofal yr Urdd' am eu holl gwaith, ysbryd a hiwmor ar y daith. A mawr ein diolch i'r ieuenctid i gyd am eu hymrwymiad llwyr, eu hymdrech diffuant a'u hwyl drwy'r broses.

Wrth feddwl am y prosiect, difyr a phwysig oedd cofio ein bod yn y Bala yn ymarfer. Bala lle y gadawodd William a Kate Jones eu cartref am byth i ddilyn eu breuddwyd am fywyd gwell ym Mhatagonia. Ardal sydd hefyd yn gyfoeth o'n hanes fel Cymry gan ein bod tafliad carreg i ffwrdd o ddŵr mawr dwfn hefyd wrth inni gofio Tryweryn. Felly dyma fynd ati mewn cwta bythefnos i ail ymarfer y sioe gyda'r ieuenctid, ac o ddydd i ddydd yn yr ymarfer gwylio a sylwi sut roedd y stori an-hygoel yma yn cydio ynddynt hwythau yn union fel yr oedd hi wedi cydio ynom ni fel cast proffesiynol a chynulleidfaoedd Cymru yn barod.

Dau berfformiad cyntaf i ni a'r ieuenctid wedyn yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod, gyda Theatr y Maes yn orlawn, a phawb ar eu traed yn eu dagrau mewn canmoliaeth. Yr un adwaith hefyd yn Theatr y Chapter, Caerdydd, gyda'r ieuenctid a phawb erbyn hyn yn gweld pwysigrwydd y ddrama hon.

O'r diwedd ar ddydd Sul y 9fed o Awst dyma gychwyn y bennod nesaf pwysig y prosiect hwn, a mynd ar daith i Dde America, (nid ar long) ond hedfan i Buenos Aires ac yna ymlaen i Batagonia! Dyma gyrraedd Trelew yn gyntaf, yna Porth Madryn a Gaiman. Pedair sioe yn yr ardaloedd hyn gydag adwaith nad oedd neb yn ei ddisgwyl. Croeso anhygoel gan yr holl

gymuned yma a mawr ein diolch. Pawb ar eu traed yn eu dagrau mewn canmoliaeth a theimlad ein bod ni wedi dod adref gyda’r hanes. Wrth gwrs roedd hi’n bwysig dweud yr hanes hwn i bawb, ond roedd pawb yn eu calonnau yn gwybod fod yr adwaith a dder-byniwyd yn y trefi hyn ym Mhatagonia yn wahanol rywsut. Yr un oedd yr adwaith gan y Cymry, Archentwyr Cymraeg a di-Gymraeg a disgynyddion y fintai gyntaf yn y gynulleidfa gan fod pawb yn gweld y darluniau yn yr arddull storïol ac yn teim-lo'r don emosiynol a gyflwynwyd yn y darn. Roeddem ni’n dweud hanes y Cymry ym Mhatagonia wrth y Cymry ym Mhatago-nia, a thrwy wneud hynny fel y dywedodd Tim Baker, ein cyfarwyddwr, ‘gyda’r fraint o ddod yn rhan o’r hanes hwnnw’ A nin-nau fel cast bob diwrnod yn deall pwysigrwydd y darn hwn fwyfwy wrth inni gael ymweld â man y glanio ym Mhorth Madryn, yn sefyll ar y traeth yn canu ein hanthem ni i Batagonia. Gweld beddi nifer o’r disgynyddion yn Gaiman, gan gynnwys wrth gwrs bedd Kate Jones, ysbrydoliaeth y darn ac awen ein cyfarwyddwr Tim Baker.

Croesi’r paith wedyn a dwy sioe olaf ein taith yn Esquel a Trevelin, gyda’r croeso unwaith eto yn dwymgalon ac arbennig, a’r adwaith yr un mor bwerus ac emosiynol, a dagrau yn llygaid pawb ar y noson ddiwethaf pan ofynnwyd i ddisgynyddion y fin-tai gyntaf sefyll ar eu traed ar ddiwedd y sioe. Cymeradwyaeth iddynt hwy a phawb, cymeradwyaeth nad oeddwn i’n meddwl oedd am stopio, a Chymry ynghyd wedyn yn canu ein hanthem Hen Wlad fy Nhadau. Mawr ein diolch unwaith eto i’r gymuned yn Esquel a Threvelin.

Nid yn unig diwedd y daith yr oedd hi yn Esquel a Threvelin, ond roeddem hefyd yn dychwelyd dau o’u meibion. Ni ellir diolch digon i deuluoedd Mike Winter a Ryan Lloyd am eu croeso twymgalon a charedig a’u cefnogaeth enfawr i’r prosiect tra’n Esquel a Trefelin. Mawr ein diolch hefyd i’r ddau deulu am gael y fraint o gyfarfod a chyd weithio gyda’i meibion. Dau ddyn ifanc diymhongar, caredig, aeddfed a galluog. Dau ddyn ifanc yr ydym yn gobeithio eu bod wedi gwneud ffrindiau am oes gyda ni gyd. Diolch Mike a Ryan!



Felly beth nesaf? Wel gyda mawr ddiolch i'r gymuned Gymraeg yn Nhrelew, Porth Madryn, Gaiman, Esquel a Threfelin mae sôn fod angen i ni ddod 'nôl gyda rhagor o'r hanes. Felly mawr obeithiaf y cawn. Fe darodd hanes y darn hwn a'r neges gord yng nghalonnau pob un ohonom ac roeddem ni gyd yn teimlo wrth fynd am adref ein bod ni, gobeithio, wedi sbarduno rhyw adfywiad i'r fenter. Menter a gychwynnwyd gan y fintai gyntaf cant a hanner o flynyddoedd yn ôl wrth iddynt adael eu car-trefi am byth i greu Cymru newydd y tu hwnt i Gymru. Fe oroesodd y tua chant a hanner cyntaf yna daith erchyll am chwe deg diwrnod ar fwrdd llong cliper fechan o'r enw'r Mimosa. Ar ôl cyrraedd a darganfod dim ond llwch a diffaethwch fe benderfyno nhw barhau gyda'r fenter, i beidio troi yn ôl, i beidio ildio. Fe wnaethant ddyfrhau'r tir, adeiladu ysgolion, cap-eli, cymunedau a allai fyw, addoli a charu yn eu hiaith eu hunain, iaith Cymru mewn lle o'r enw Patagonia.

A dyma holl bwrpas y fenter gan Glwyd Theatr Cymru a'r Urdd yn fy marn i, dal drych i fyny drwy gelfyddyd i'r Cymry yng Nghymru a'r Cymry ym Mhatagonia fel ein bod yn parhau gyda'r fenter ac yn sylweddoli pwysigrwydd dyfodol yr Iaith. Mae yna rwydwaith wedi ei sefydlu yn awr rhwng Clwyd Theatr Cymru a'r Urdd gyda'r holl gymdeithas Gymraeg ym Mhatagonia, a thrwy'r berthynas a'r rhwydwaith yma gelli'r parhau a'r fenter. Rhaid dathlu menter y fintai gyntaf a'r cenedlaethau eraill ar eu hôl bob dydd, ac mae'n rhaid i'r cenedlaethau ohonom sydd yma nawr barhau. Achos i ddyfynnu geiriau sgript Tim Baker : "Mae'n rhaid i'r fenter barhau, mae'n rhaid i ni lwyddo, fedrwn ni ddim methu!"

I orffen rhaid diolch hefyd i dîm anhygoel Clwyd Theatr Cymru am eu cyfraniad hwy i ddod a'r sioe yma yn fyw. Diolch i Alex Robertson am ei gynllun llwyfan ac i'r adran dylunio a gwneuthur am eu gwaith. Diolch hefyd i adran gwisgoedd arben-nig Clwyd Theatr Cymru. Diolch i'r tîm technegol yn y Theatr ac i ddau a fu gyda ni yn ystod y daith, Cassey Driver a Tom Biglin. A diolch enfawr i gydlynydd adran 'Theatr ar gyfer Pobl Ifanc' Clwyd Theatr Cymru, Nerys Edwards am ei gwaith diddiwedd.

Hoffwn hefyd ddiolch yn bersonol i fy nghyd actorion, Hanna Jarman, Tom Blumberg a Bethany Gwyn am bum mis gwefreid-diol ac emosiynol, ac i'r holl ieuenctid am eich gwaith gyda ni.

Hoffwn orffen gyda geiriau Tim Baker a atseiniodd yng nghof pob un ohonom fel cast a phob aelod o'n cynulleidfa ar y daith wefreiddiol yma, yn y Wyddgrug, Môn, Pontypridd, Merthyr, Meifod, Mwldan, Felinfach, Lerpwl, Llanfair ym Muallt. O Gaer-narfon i Gaiman, Trelew i Drevelin, Porth Madryn i Esquel.

"Dyfodol, Rhyddid, Gobaith, Ffydd!"

Tan tro nesaf Patagonia.

Diolch.

**Dylan Williams 'Mimosa 2015'**.




Caf groeso mawr yn wythnosol yn **Ysgol 24 Luis Jorge Fontana, Esquel**. Mae´r Brifathrawes Sandra Teresa Simeoni yn gefnogol iawn. Mae Diana Mariel Jenkins yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Braf yw gweld y disgyblion yn dangos diddordeb aruthrol.

Gwelwch luniau amrywiol o´r grwpiau gwahanol sydd eisoes wedi cael gwersi yn ystod y flwyd-dyn yma. Gwelir hefyd lun o´r Athro Robert Owen Jones tra ar ymweliad yma rai blynyddoedd yn ôl. Hyfryd gweld enghraifft o waith Catalina Lecuona Nardo.

Roedd yn bleser cael bod yn rhan o ddathliadau´r ysgol adeg Gŵyl y Glaniad a chlywed cyflwyniadau amrywiol ac eitemau graenus iawn. Diolch i Cristine Jones am anerchiad a roddodd flas pellach i´r holl ddisgyblion o hanes yr ymfudwyr cyntaf. Bore arbennig iawn.

**Eluned Jones**



## Telynau I’r Wladfa

Hyfryd iawn ddiwedd yr haf eleni fu derbyn newyddion da o Gymru fod Elinor Wigley yn arwain ymgyrch i gasglu arian i brynu telynau i’r Wladfa. Ers tair blynedd bellach rydw i wedi bod yn cynnal gwersi telyn yn Ysgol Gerdd y Gaiman ac mae cryn ddiddordeb wedi ca-el ei gynnau yn offeryn cenedlaethol Cymru a nifer o ddisgyblion yn dod i ddysgu sut i dynnu’r tannau. Achlysur braf iawn a oedd yn cyd-fynd a dathliadau dydd Gwyl Dewi y Wladfa fu croesawu Elinor a Gwenan Gibbard i’n plith i gynnal cyngherddau a throsglwyddo dwy delyn i drigolion Cwm Hyfryd. Ym mis Gorffennaf cludais innau delyn a brynwyd gan arian o’r un gronfa i’w defnyddio yn Ysgol Gerdd y Gaiman a deallwn fod dwy delyn arall ar ei ffordd yma hefyd. Defnyddiwyd telyn newydd Ysgol Gerdd y Gaiman yng nghyngerdd Gwyl y Glaniad yn Nhrelew wrth i Helen Mair Green berfformio tair hwiangerdd yn greff-tus iawn i lond neuadd o bobol, gan gynnwys Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru. Rydym felly yn ddiolchgar iawn, iawn i Elinor am ei diddordeb ynom yma yn y Wladfa ac am ei chefnogaeth hi a’r holl garedigion a gyfrannodd tuag at y gronfa i sicrhau y bydd un agwedd o ddiwylliant Cymru yn parhau yma ym Mhatagonia.

**Esyllt Nest Roberts**



## Dawnswyr Cwm Hyfryd

Dechreuais gyda´r grŵp dawnsio yn 2008. Roedd y plant yn fach. Cychwynom drwy gymryd rhan mewn eisteddfodau a chyngherddau ond erbyn hyn rydym yn mwynhau mewn sefyllfaoedd gwahanol. Eleni buom yn brysur iawn. Ym mis Mawrth yn yr Encuentro Celtaidd, ac wedyn yn y ffair Pasg yn Nhrevelin. Mis Ebrill cawsom ddawnsio yn Ysgol 18, Cyngerdd ac Eisteddfod Trevelin hefyd. Rydym yn falch o fod wedi llwyddo a chael ein dewis yn y Culturales Evita yn Esquel i fynd ymlaen i ddawnsio yn y rhan nesaf yn Rawson diwedd Medi. Cafodd y plant bach a´r oedolion ddawnsio yn y ffair Aeaf yn Nhrevelin a chael llawer o hwyl. Mae´n flwyddyn y Canmlwyddiant a Hanner felly roedd yn hyfryd cael dawnsio yn yr Acto ar yr 28ain o Orffennaf. Ymysg llawer o weithgareddau eraill megis Festival 150 a chyngerdd y dathlu roedd yn fendigedig cael dawnsio a chlocsio gyda Chast y ´Mimosa´ yn y noson gymdeithasol yn Esquel. Yn ddiweddar chawsom amser da yn Dawnsio yn Eisteddfod Ysgol ´Puerta del Sol´. Rydym wedi dawnsio mewn priodas. Rydym wedi croesawu ymwelwyr o Gymru sef Leni Hatcher oedd yn dysgu tipyn o glocsio a Suzanne Condon a ddaeth i´r dosbarthiadau dawnsio i hyfforddi. Trefnais Dwmpath Menter gyda Steffan Bryn a Isabel sef myfyrwyr Santander o Brifysgol Caerdydd. Diolch yn fawr iddynt. Cofiwch mae dawnsio yn hwyl ac mae croeso i bawb ymuno â ni ar nos Fawrth am 8 o´r gloch yn neuadd y dref gyda´r oedolion a bob prynhawn Gwener yn Ysgol y Felin sef y plant lleiaf o 5 oed ymlaen.

**Jessica Jones**



**ARGYMHELLION 2014 : Adroddiad Cynnydd**

1) **Cefnogi a chynorthwyo'r ymdrechion i sefydlu a chynnal addysg gynradd ddwyieithog yn Gaiman a Threvelin.**

   ***Yn sicr mae'r Cynllun wedi bod yn ganolog i ymdrechion yn y maes holl bwysig hwn .***

2) **Adeiladu ar gynnydd sylweddol 2014 a'r holl ddiddordeb ynglŷn â dathliadau 2015 er mwyn cynyddu niferoedd ar bob lefel. Dylid parhau gyda'r dulliau marchnata a ddefnyddiwyd eleni.**

   ***Unwaith eto roedd cynnydd yn nifer y dysgwyr a hynny yn ystod blwyddyn mor brysur.***

3) **Cydweithio â'r llywodraeth leol a ffederal er mwyn cael mynediad i fwy o ysgolion cyfrwng Sbaeneg.**

   ***Cynnydd yn Yr Andes yn bennaf oherwydd atgyfodi gwersi ail iaith yn Ysgol 24 Esquel. Yn sicr byddai modd ehangu ar y gwaith hwn yn y dyfodol ond nid ar draul datblygu ysgolion dwyieithog*.**

4) **Parhau gyda chynnig cyrsiau byrion sydd ar agor i'r cyhoedd a mewn gweithleoedd er mwyn creu a datblygu cynulleidfaoedd newydd.**

   ***Roedd y cyrsiau hyn yn llwyddiannus iawn unwaith eto a gwelir yn yr adran ar Gymraeg i Oedolion eu bod wedi arwain at nifer sylweddol o ddysgwyr ar lefel Mynediad unwaith eto.***

5) **Cryfhau a chynyddu niferoedd ar gyrsiau Cymraeg i oedolion ar lefelau Sylfaen ac yn arbennig Canolradd.**

   ***Mae hyn wedi digwydd – gweler tudalen 7***

6) **Cynorthwyo yn y broses o hyrwyddo a chynnal partneriaethau Connecting Classrooms a cheisio sefydlu partneriaeth newydd rhwng Yr Andes ac ysgol yng Nghymru. Mae diffyg cyllid i ddod ag athrawon draw i arsylwi yng Nghymru yn ergyd i'r cynllun. Fodd bynnag mae modd defnyddio'r partneriaethau hyn fel ffordd o gyflawni'r un nod.**

***Llwyddwyd i greu partneriaeth Connecting Classrooms rhwng Ysgol Gymraeg Gaiman ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth.***

7) **Yn hanesyddol oherwydd haelioni Cymdeithas Cymru Ariannin a chronfa elusennol mae wedi bod yn bosib ers degawdau dod â dysgwyr y Gymraeg draw i Gymru bob blwyddyn i fynychu Cwrs Haf Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd, *yn ogystal â dod ag athrawon draw i arsylwi – gweler pwynt 6 uchod*.**
**Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd hyn. Mae bron 60 o bobl wedi mynychu'r Cwrs Haf yn ystod y degawd diwethaf ac mae rhyw 80% o'r athrawon Cymraeg brodorol wedi dysgu neu wedi gwella eu Cymraeg ar y cyrsiau hyn. Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa economaidd nid yw'r ffynhonnell ariannol bwysig hon ar gael inni erbyn hyn. Byddai colli llif cyson o siaradwyr hyderus yn dychwelyd i'r Wladfa bob blwyddyn yn ergyd drom i ddyfodol y Gymraeg yno. O ganlyniad ac yn wyneb diffyg cyllid ychwanegol am y dyfodol rhagweladwy bydd angen i'r pwyllgorau lleol ystyried codi arian yn lleol, fel y gwnaethant ar ddechrau'r Cynllun, er mwyn cyfrannu at sicrhau bydd y traddodiad pwysig hwn yn parhau.**

***O 2016 ymlaen oherwydd gwaith clodwiw gan aelodau'r Gymdeithas gobeithir y bydd modd cynnig ysgoloriaethau i 2 neu 3 o ddysgwyr i astudio yng Nghaerdydd. Dylid nodi hefyd bod un dysgwr wedi ennill ysgoloriaeth a gynigiwyd gan Brifysgol Aberystwyth i fynychu cwrs Cymraeg yn ystod mis Gorffennaf 2015.***

**ARGYMHELLION 2015**

1) Plant. Cefnogi datblygiadau cynradd holl bwysig yn y Dyffryn ac yn Yr Andes. Yn ystod 2016 bydd arbenigwraig ym maes cynradd yn y Dyffryn er mwyn cynorthwyo Ysgol Gymraeg Gaiman.
2) Cyllid. Soniwyd yn argymhellion adroddiad blynyddol 2013 am y sefyllfa argyfyngus o ran diffyg cyllid i'r Cynllun. Nid yw'r sefyllfa wedi gwella. Ers 10 mlynedd neu fwy mae'r Cynllun yn derbyn yr un math o arian a hynny mewn gwlad gyda chwyddiant o rywbeth fel 30%. Mae'n wyrthiol bod niferoedd yn codi o hyd wrth ystyried hynny ond ni fydd y cynnydd yn parhau oni bai bydd rhagor o gyllid ar gael er mwyn cynnig cyflog byw i swydogion o Gymru fynd draw yno ac i ddigolledu'r holl diwtoriaid lleol yn rhesymol. Ar hyn o bryd nid oes modd i swyddogion wasanaethu cymunedau fel Madryn a Comodoro Rivadavia'n foddhaol oherwydd yr holl weithgareddau sy'n bodoli eisoes yn y Dyffryn. Mae modd i'r Cynllun ymestyn ac ehangu darpariaeth yn yr ardaloedd hynny ond bydd angen swyddog arall. Am swm cymharol fach byddai modd gwneud gwahaniaeth mawr i ddyfodol y Gymraeg yn Y Wladfa.
3) Cymraeg i Oedolion. Ers targedu'r maes pwysig hwn yn strategol mae niferoedd wedi codi'n sylweddol. Mae'r holl ddathliadau yn ystod 2015 wedi denu cynulleidfa newydd ac wedi atgoffa hen gynulleidfa o'u gwreiddiau. O ganlyniad i hyn ac ymdrechion strategol y Cynllun mae mwy o oedolion yn dysgu eleni nag erioed o'r blaen ac am y tro cyntaf safodd dysgwyr arholiadau CBAC ar bob lefel. Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell. Mae angen sicrhau bod dysgwyr yn symud o lefel i lefel yn arbennig yn 2016 rhwng Cyn-fynediad a Mynediad ( Wlpan 1) ac o Ganolradd i Uwch.
4) Arsylwi ac Ysgoloriaethau Dysgu.Yn 2016 bydd un athrawes yn arsylwi mewn ysgolion cynradd yng Nghymru ac mae angen parhau gyda'r gwaith hwn. Mae angen hefyd sicrhau bydd cyllid i anfon dysgwyr ar gyrsiau dwys yng Nghymru.
5) Partneriaethau. Mae angen arbenigedd addysgol ac adnoddau yn y sector cynradd er mwyn sicrhau llwyddiant yr ysgolion newydd. Dim ond trwy greu partneriaethau strategol fydd modd cyflawni hynny.